

The Project Gutenberg eBook of Gwaith Alun, by Alun John Blackwell

This ebook is for the use of anyone anywhere in the United States and most other parts of the world at no cost and with almost no restrictions whatsoever. You may copy it, give it away or re-use it under the terms of the Project Gutenberg License included with this ebook or online at www.gutenberg.org. If you are not located in the United States, you'll have to check the laws of the country where you are located before using this eBook.

Title: Gwaith Alun

Author: Alun John Blackwell

Illustrator: Samuel Maurice Jones

Photographer: John Thomas

Release date: February 1, 2005 [EBook #14865]


Most recently updated: December 19, 2020

Language: Welsh, English

*** START OF THE PROJECT GUTENBERG EBOOK GWAITH ALUN ***

Transcribed from the 1909 Ab Owen edition by David Price, email ccx074@coventry.ac.uk

GWAITH ALUN





Rhagymadrodd.

Ganwyd John Blackwell (*Alun*) mewn bwthyn ger y Wyddgrug yn 1797. Un o Langwm oedd ei fam—gwraig ddarbodus a meddylgar; a dilynai ei mab hi i'r seiat a'r Ysgol Sul, gan hynodi ei hun fel dysgwr adnodau ac adroddwr emynau. Mwnwr call, dwys, distaw, oedd ei dad, a pheth gwaed Seisnig ynddo; cydymdeimlai yntau â'i fachgen.

Yn unarddeg oed, heb addysg ysgol ond yn awyddus am wybodaeth, prentisiwyd ef gyda chrydd oedd yn fardd. Pan yn ddwy ar bymtheg, wedi bwrw ei brentisiaeth, medrai fforddio prynnu llyfrau; a cherddai'n aml i Gaer i chwilio'r siopau. Derbyniai gylchgronau, prynnai lyfrau Cymraeg, chwiliai am feirdd. Llenorion yr ardal oedd ei gyfeillion, y gynghanedd ei hoffter.

Yn 1823 disgleiriodd fel seren yn awyr Eisteddfod Cymru. Yn Eisteddfodau Rhuthyn, Caerwys a'r Wyddgrug tynnodd sylw; gyda'i awdl Genedigaeth Iorwerth II. yn y gyntaf, a chyda'i awdl Maes Garmon yn yr olaf. Yr oedd ei fryd erbyn hyn ar gymeryd urddau eglwysig, a chafodd noddwyr caredig.

Yn 1824 aeth i'r Beriw, pentref hyfryd ger y fan yr abera afon Rhiw i afon Hafren. Yma dysgai Ladin a Groeg gyda'r ficer, y Parch. Thomas Richards. Yn y lle tawel Seisnig hwn, cymerodd ei awen edyn ysgafnach, cywreiniach. Clerigwyr pobtu'r Hafren oedd ei gyfeillion, ac yn eu mysg yr oedd Gwallter Mechain ac Ifor Ceri. Yma, at Eisteddfod y Trallwm, y cyfansoddodd ei draethawd gorchestol ar yr iaith Gymraeg.

Yn Rhagfyr, 1825, ymaelododd yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen; pasiodd ei arholiad gradd olaf ym Mai, 1828. Ymdrechodd yn galed; a'i fryd ar lwyddiant yn yr arholiadau, ar astudio llenyddiaeth Gymreig, ac ar ymbaratoi at waith pwysig ei fywyd. Gloewodd ei awen, a dysgodd felodi newydd, yng nghwmni Homer a Vergil.

Daeth adre at Eisteddfod Dinbych yn 1828; cafodd ynddi wobwr am ei Farwnad Heber, a chynrychiolai ei gyd-efrydydd Ieuan Glan Geirionydd, trwy eistedd drosto yn y gader enillasai awdl Gwledd Belsasar.

Ionawr 15, 1829, ordeiniwyd Alun yn gurad Treffynnon. Bu yno, yn fawr ei barch fel gweinidog a llenor, hyd 1833, pryd y rhoddodd Arglwydd Brougham iddo fywoliaeth Maenor Deifi ym Mhenfro. Yn 1834 cychwynodd y *Cylchgrawn*, cylchgrawn gwybodaeth fuddiol, mewn rhyddiaith clasurol a phur. Yr oedd y *Gwladgarwr* eisoes ar y maes; a digiodd Alun ei gyfeillion, yn enwedig Ieuan Glan Geirionydd ac Erfyl, am wrth-ymgais. Ond ychydig elynion fu iddo. Yr oedd mor anhunangar a hael ei ysbryd, mor ddifyr a mwyn ei gwmni, mor bur ei fuchedd.

Bu farw Mai 19, 1840; a chladdwyd ef ym Maenor Deifi. Cyhoeddwyd ei waith yn 1851.

Eos Cymru oedd Alun,—yn felus a dwys yr erys ei nodau yng nghlust ei genedl.

OWEN M. EDWARDS.

Cynhwysiad.

[Ceisiwyd trefnu'r darnau mor agos ag y gellid i'w trefn amseryddol.]

I. Y WYDDGRUG. 1797-1824.

Iddo Ef
Angau
Cymdeithas Caer
Dau Englyn Priodas
Genedigaeth Iorwerth II.
Cerdd Gwylidydd y Wyddgrugr
Llwydd Groeg
Eisteddfod Caerwys
Dafydd Ionawr
Gwyl Ddewi
Eisteddfod y Wydderug
Rhywun
Maes Garmon

II. ABERIW. 1824.

Bywyd yn Aberiw
Ifor Ceri
Eryn Pasg
Englyn i Ofyddes
A Pha Le Mae? (Cyf.)
Eisteddfod y Trallwm
Caroline
Beddargraff
Bugeilgerdd
Yr Hen Amser Gynt
I —
Gadael Rhiw

III. RHYDYCHEN. 1825-1828.

At Gyfaill
College Life
At Lenor
Telyn Cymru
At ei Rien
Cywydd y Gwahawdd
Disadvantages and Aims
Calvinism
At ei Fam, pan oedd Weddw
Cwyn ar ol Cyfaill
Marwolaeth Heber
Seren Bethlehem

IV. BLYNYDDOEDD ERAILL. 1828-1840.

At Manor Deifi
Cathl yr Eos
Abad-dy Tintern
Cân Gwraig y Pysgotwr
Y Ddeilen Grin

Y Darluniau.

ALUN

“Does destyn gwiw i'm cân,
Ond cariad f' Arglwydd glân.”

COLOFN MAES GARMON—S. MAURICE JONES.

CARTREF MEBYD ALUN—S. MAURICE JONES.

CASTELL CONWY {1a}

“Ar furiau tref ai rhaid trin
Anhoff astalch a ffestin?”

MARATHON

“Gwnawn weunydd a llwynydd llon,
Mawr hwythau, fel Marathon”

CAERWYS {1b}

“Lluman arfoll Minerfa
Sydd uwch Caerwys ddilys dda.”

RHYWUN {1c}

“Gwyn ac oer yw eira Berwyn.”

UN O HEOLYDD CAERWYS

“Hawddamor bob gradd yma, orwych feirdd.”

YR AMSER GYNT {1d}

“Bu’n hoffi mi, wrth deithio ’mhell
Gael croesaw ar fy hynt.”

GWRAIG Y PYSGOTWR

“Dwndwr daear sydd yn darfod,
Cysga dithau ar dy dywod.”

Rhai Geiriau.

[Lle rhoddir yr esboniad yn Saesneg, dealler mai esboniad Alun ei hun yw hwnnw.]

Abred, ystad dadblygiad trwy gyfnod drwg anelwig i ddynoliaeth hapus; “treiglo abred,” mynd trwy holl dro trawsfudiad.

Arfeddyd, bwriad, amcan.

Balawg, uchel.

Brathawg, *apt to stab, assassinating.*

Breila, breilw, rhosyn.

Breyr, uchelwr, gwrda, barwn.

Callawr, crochan.

Deddyw, daeth.

Diachreth, di-gryn, cadarn.

Diarynaig, *hero*

Digrawn, llifol, heb gronni

Digyrrith, hael, caredig.

Dyheuent, *gasping for breath.*

Dyspaidiad, *in the intermission.*

Eiriach, cynhilo

Elwch, llawenydd, gorfoledd.

Enrhaith, *fellows.*

Ffladr, caruaid, taer wenieithus, anwyl.

Fflwch, llawn; buan.

Gâlon, gelynion.

Germain, *shout.*

Gofynaig, cais.

Gorthaw, distawrwydd, amynedd.
Gwawrwalch, *a valiant man, a hero.*
Graid, *fire, urgency.*
Gryw, Greek.
Gwaladr, tywysog, rheolwr.
Gyrr, *attack, onset.*
Hadledd, dirywiad, dinistr.
Heng, gwth, taith orfod.
Hirell, *gleams of light.*
Huddug, tywyll, trist.
Hwi'n golofn, *form into a column.*
Loes gwefrawl, *electrical shock.*
Lleuai, *read.*
Main, meini.
Mwd, tan y to, nenfwd.
Nwyfre, awyr, nef.
Rhialyd, natur, greddf.
Rhom, rhyngom.
Sarllach, bost, bloddest.
Sawdan, Soldan, Sultan.
Sitwyr, *rangers, freebooters.*

ALUN.



"IDDO EF."

Dat. i. 5.

'Does testun gwiw i'm cân
Ond cariad f' Arglwydd glân
A'i farwol glwy;
Griddfanau Calfari,
Ac angau Iesu cu,
Yw nghân a mywyd i,

Hosanna mwy.

Paham bu i ddeddf y net
Ymaflyd ynddo EF,
A rhoi iddo glwy?
Fe roddwyd yn y drefn,
Fy meiau ar ei gefn;
Pwy na roi floedd drachefn—
Hosanna mwy.

Ergydiwyd ato EF,
Gan uffern, byd, a nef,
Eu saethau hwy:
Arhodd ei fwa'n gry',
Nes maeddu uffern ddu,
A phrynu mywyd i,
Hosanna mwy.

Caniadau'r nefol gôr,
Sydd oll i'm Harglwydd Iôr
A'i ddwyfol glwy;
Y frwydr wedi troi,
Ellyllon wedi ffoi,—
Sy'n gwneyd i'r dyrfa roi
Hosanna mwy.

O faint ei gariad EF!
Nis gall holl ddoniau'r nef,
Ei dreiddio drwy:
Mae hyn i mi'n beth syn,
I ruddfan pen y bryn
Droi'n gân i mi fel hyn,
Hosanna mwy.

Pan ddelo'r plant ynghŷd,
O bedair rhan y byd,
I'w mangre hwy;
Tan obaith yn ddilyth,
Cael telyn yn eu plith,
I ganu heb gwyno byth,
Hosanna mwy.

Tra bwyf ar riwiau serth,
Preswilydd mawr y berth,
Rho'th gwmni trwy;
Mae cofio am y loes
Dan arw gur y groes,
Yn rhyw feluso f'oes,
Hosanna mwy.

Na ddigied neb o'r plant,
Am imi ganu ar dant
O'u telyn hwy:
Myfyrio'r tywydd du
Fu ar ein Iesu cu,
A droes fy nghân mor hy',
Hosanna mwy.

ANGAU.

Englynion a ysgrifenydd yn ddifyfyr ym mynwent y Wyddgrug.

"Ni foddid (mae'n rhyfeddol)—chwai angau,
A chyngor dymunol;
Er wban, griddfan greddf,ol,
(Uthr in' yw!) ni thry yn ol.

Er gwaedd mam,—er gweddi myrdd,
Er gwên byd,—er gwyneb hardd,
Er swyn cwyn,—er seinio cerdd,
Er ing ffull, mynn angau'i ffordd.

Ni eiriach rai bach rhag bedd,—i'r cedyrn
Rhoir codwn i'r dyfn-fedd;
A mirain feibion mawredd
Ostyngir, siglir o'u sedd.

I'r llaid yr aeth fy nhaidiau,—i huno,

Fu'n heinyf er's dyddiau:
I'r ystafell dywell dau,
Ryw funud, yr af innau.

Ond cael nod hynod, a hedd—yr Iesu,
A drws i dangnefedd;
Yn dawel yn y diwedd,
Af i gaban bychan bedd.

CYMDEITHAS GYMREIGYDDOL CAERLLEON.

Boed llwydd, mewn pob dull addas,—a chynnydd
I'ch enwog Gymdeithas;
Heb stwr, na chynnwr, na châs—
Geni beirdd heirdd fo'i hurddas.

Bu gannoedd drwy bob gweniaith,—addefent,
Am ddifa'r Omeriaith;
Aent hwy i lawr i fynwent laith—
I fyny safai'r fwyn-iaith.

Heddyw gwelaf na faidd gelyn—er gwŷn,
Roi gair yn ei herbyn;
A dolef gref sy'n dilyn,
"A lwyddo Duw, ni ludd dyn."

Cur llawer fu Caerlleon,—y gw'radwydd
Sy'n gwrido hanesion;
Am groesi'r Clawdd hir i hon,
Brethid calonnau Brython.

'Nawr Cymry gant wisgant wên,
Chwarddu gânt a cherddi gwin,
Ceir bri, a chwmmi, a chân,
O fewn Caer heb ofn y cwn.

Byw undeb, gyda bendith,—a daenir
O'ch doniawl athrylith:
Gelyn breg, rhwyg rheg rhagrith
I chwerwi'ch plaid, na chaer i'ch plith.

DAU ENGLYN

Ar Briodas Mr. P. Williams â Miss Whitley, Broncoed.

Gan Naf eiddunaf i'r ddau—bob undeb,
A bendith, a grasau,
I fyw'n hir, ac i fwynhau
Dedwyddwch hyd eu dyddiau.

Eirchion y gwaelion heb gelu,—pur rad
Parhaus fo'n defnynnu:
Pob urddawl ollawl allu
Iddyn' ddel—medd Ioan Ddu.

Tach., 1812

GENEDIGAETH IORWERTH II.

Llais llid Iorwerth.

Clywch! clywch! ar hyd lannau Clwyd
Ryw swn oersyn o arswyd!
Gorthaw'r donn, cerdda'n llonydd,
Ust! y ffrwd,—pa sibrwd sydd?
O Ruddlan daw'r ireiddlef
Ar ael groch yr awel gref;
Geiriau yr euog Iorwerth,
O 'stafell y Castell certh;
Bryd a chorff yn ddiorffwys,—
Hunan-ymddiddan yn ddwys:
Clywch, o'r llys mewn dyrys dôn,
Draw'n sisial deyrn y Saeson,—
"Pa uffernol gamp ffyrnig?
A pha ryw aidd dewraidd dig?
Pa wrolwyp rialyd
Sy'n greddfu trwy Gymru 'gyd?
Bloeddiant, a llefant rhag llid,

Gawrwaeddant am deg ryddid,—
'Doed chwerwder, blinder, i blaid
Ystryw anwar estroniaid;
Ein gwlad, a'n ffel wehelyth,—
Hyd Nef,' yw eu bonllef byth;
Ac adsain main y mynydd,—
Och o'u swan!—yn gasach sydd;
'Ein gwlad lân amhrisiadwy,'
Er neb, yw eu hateb hwy.

"Pa les yw fod im' glod glân
Am arswydo'r mawr Sawdan,—
Pylu asteilch Palestin,
Baeddu Tyrchiaid, bleiddiaid blin;
Troi Chalon wron i weryd,
Ie, curo beilch wyr y byd,—
Os Gwalia wen,—heb bennaeth,
A'i mawrion gwiwlun yn gaeth,—
Heb fur prawf,—heb farrau pres,
Na lleng o wyr, na llynges,—
A ymheria fy mawr-rwysg,
Heb fy nghyfri'n Rhi mewn rhwysg?
Er cweryl gyda'r cawri,
A lladd myrdd, nid llwydd i mi;
Ni fyddaf, na'm harfeddyd,
Ond gwatwor tra byddo'r byd.

"Ha! ymrwyfaf am ryfel,
O'm plaid llu o ddiafliaid ddêl:
Trowch ati'r trueni trwch,
Ellyllon! gwnewch oll allwch.

"I ti, O Angeu, heddyw y tyngaf,
Mai am ddialedd mwy y meddyliaf;
Eu holl filwyr, luyddwyr, a laddaf,
Un awr eu bywydau ni arbedaf;
Oes, gwerth, i hyn aberthaf,—gwânu hon
Drwy ei chalon fydd fy ymdrech olaf.

Dichell Iorwerth.

"Ha! ha! Frenin blin, i ble
Neidiodd dy siomgar nwyde?
Oferedd, am hadledd hon,
Imi fwrw myfyrion;
Haws fydd troi moelydd, i mi,
Arw aelgerth, draw i'r weilgi,
Nac i ostwng eu cestyll,
Crog hagr, sef y creigiau hyll.

"Oni ddichon i ddichell,
Na chledd na nych, lwyddo'n well?
Rhyw ddu fesur ddyfeisiaf,—
Pa ystryw ddwys, gyfrwys gaf?
Pa gais? pa ddyfais ddifêth
Gaiff y budd,—ac â pha beth?

"Nawr cefais a wna r cyfan,—
Mae'r meddwl diddwl ar dân;
Fy nghalon drwy 'nwyfron naid,
A llawenydd ei llonaid;
Gwnaf Gymru uchel elwch,
I blygu, a llyfu'r llwch:—
I wyr fy llys, pa'nd hyspyswn
Wiw eiriau teg y bwriad hwn?"

A chanu'r gloch a wnai'r Glyw,
Ei ddiddig was a ddeddyw,—
"Fy ngwas, nac aros, dos di,
A rhed," eb ei Fawrhydi,—
"Galw ar fyrr fy Mreyron,
Clifford hoew, Caerloew lon;
Mortimer yn funer fo,
A Warren, un diwyro."

Deuent, ymostyngent hwy
I'w trethawr, at y trothwy:
O flaen gorsedd felenwawr

Safai, anerchai hwy'n awr,—

“Cyfeillion bron eich Brenin,
A'i ategau'r blwyddau blin,—
Galwyd chwi at eich gilydd
Am fater ar fyrder fydd;
Gwyddoch, wrth eu hagweddu,
Fod llu holl Gymru'n nacau
Ymostwng, er dim ystyr,
I'm hiau o gylch gyddfau'u gwyr;
Ni wna gair teg na garw,—
Gwên, na bâr,—llachar, na llw,
Ennill eu serch i'm perchi,
Na'u clod i'm hawdurdod i:
Ni fynnant Bôr, cynnor cain,
Ond o honynt eu hunain;
Ganedig bendefig da,
O'u lluoedd hwy a'u llywia:—
Ond cefais, dyfeisiais fodd,
O dan drais, i'w dwyn drosodd;
Ac i mi gwnant rod-di rhaith,
Ac afraid pellach cyfraith;
Rhoi llyffeithair â gair gaf,—
Gair Gwalia gywir goeliaf:—
Yn rhywfodd, ni ddysgodd hon
Er lliaws, dorri llwon:
Elinôr, lawen araf,
Mewn amhorth yn gymorth gaf;
Mererid i'm Mreyron
I'w cais pur trwy'r antur hon.”

Traethai'r Brenin, gerwin, gau,
Ar redeg ei fwriadau;
A'r Cyngor wna'i glodfori,
Mor ddoethwedd rhyfedd eu rhi,
A'i ddihafal rialyd,
Mewn truthiaith, gweniaith i gyd.

Yna'r arglwyddi unol
A gilient, nesent yn ol,
Gan grymu pen i'w Brenin,
Laig ei glod, a phlygu glin.

Ufudd-dod y Frenhines.

E geisiai frys negesydd
Yn barod, cyn darfod dydd,—
A gyrrai, ar farch gorwych,
I'r brif-ddinas y gwas gwych,
A gofynaig i'w Fanon,
A gair teg am gariad hon:
Y lonwech bur Elinawr
Serchog, oedd yn feichiog fawr;
Gofynnai a hwyliai hon,
Gryn yrfa, i Gaernarfon,
Ar fyrder, fod mater mawr
I'w ddisgwyl y dydd esgawr.

O fodd ufuddhaodd hon,
Iach enaid, heb achwynion;
Dechreuai'r faith daith, 'run dydd,
Mewn awch, a hi'n min echwydd;
Gwawl lloer, mewn duoer dywydd,
A'i t'wysai pan darfa'i dydd;
Oer y cai lawer cawod,
Cenllysg yn gymysg ag ôd;
Anturiai, rhodiai er hyn,
Trwy Gwalia, tir y gelyn;
Er ymgasgl bâr o'i hamgylch,
A'i chell yn fflamiau o'i chylch,—
Ni wna'i hon ddigalonni,
Mor der oedd ei hyder hi;
(Ow! ow! 'n wir beri'r bwriad
Tra glew, er dinistrio gwlad:)—
Daeth, wrth deithio o fro i fryn,
Y faith yrfa i'w therfyn.

A'r deyrnes gynnes, heb gêl
Yn ddiogel;
Rhoes Iorwerth eres warant,—
Ae rhingyll i gestyll, gant,
Am alw cydymweliad
Brenin ac arglwyddi'n gwlad:
Rhuddlan oedd y fan i fod
Hygof erfai gyfarfod;
I dorri rhwystrau dyrys
Y gelwid, llunid y llys:—
D'ai'r eurfig bendefigion
O amryw le 'Nghymru lon;
Yno y daeth yn y dydd,
Gwalia o gwrr bwygilydd.

Ond oedai Edward wedyn
Eu galw i'r llys, hysbys hyn;
Disgwyliai â dwys galon,—
Heb gau ei amrantau 'mron,
I'w fanon wirion, arab,
Ar awr ferth, esgor ar fab.

Harddai y lle—rhoi fwrdd llawn,
A gosod rhyw esgusiawn;
Ond er yr holl arfolli
Holl blaid ein penaethiaid ni
Ni charent y gwych aeron—
Y dawnsiau a'r llefau llon:
Y morfa llwm a hirfaith,
Lle berw tonn, oedd llwybr eu taith,
A myfyrient am fawrion
Aeth mewn cyrch dan dyrch y donn,—
Y glewion, enwogion wyr
Laddwyd, a'r prif luyddwyr:
Rhodient pan godai'r hedydd
Fel hyn, hyd i derfyn dydd;
A'u dyddiau oll fel diddim,
Synnent, ond ni ddwedent ddim:
Wedi egwyl ddisgwyliaid,
O fewn eu bron daeth ofn brad,—
Swn, fal rhwng sisial a son,
"Llawrudd a chyllill hirion;"
'Roedd gwaelod y trallod trwch,
I wyr Gwalia'n ddirgelwch.

Geni Tywysog.

Wele! o'r diwedd, ar ol hir dewi,
Deuai i Iorwerth genadwri
O Gaersalwg,—gwnai ei groesholi,—
Yna ei holl anian oedd yn lonni
Hyd grechwen, pan glywodd eni—bachgen
Ag aur wialen a gai reoli.

Ac yna a'i udganwr
A'i gorn teg i gern y tŵr:
Galwyd arglwyddi Gwalia, ar unwaith,
Ar heng hirfaith i ddod i'r gynghorfa.

Pob rhyw gadr waladr oedd
Yn esgud yn ei wisgoedd;
Distain wnai iddynt eiste
Bob yn lwyth—bawb yn ei le:
Deuai'r Ynad dirinwedd,
Mewn parchus, arswydus wedd;
Mewn rhwysg a muner-wisgoedd,
Coron ar y coryn oedd;
A gwyneb yn llawn gweniaith,
O drefn y dechreuai draith.

"Fy neges, brif enwogion,
A glywiau teg y wlad hon,—
Nid ydyw i wneyd adwyth,
Dwyn loesion llymion yn llwyth,—
I fygwth clwyf a gwaith cledd,
Nac i lunio celanedd;
Ond o fwriad adferu

Eich hyfawl barch fel y bu;
Cymru ben baladr ffladr fflwch
Heddyw sydd eisiau heddwch;
Rhoddi Llywiawdwr addwyn,
Nwyfre maith, wnaf er ei mwyn;
Un na's trina es'roniaith,
Na swm gwag Seisonig iaith;
Fe'i ganwyd ar dir Gwynedd,
Dull Sais, na'i falais, ni fedd;
Addefir ef yn ddifai,—
Ni wŷr un fod arno fai:
Yn fwynaidd gwybod fynwn,
Beth wnewch? Ufuddhewch i hwn?"

* * * * *

Cydunent, atebent hwy,—
"Ymweledydd mawladwy,
I'n cenedl rhyw chwedl go chwith
Ydyw geiriau digyrrith;
Cymru wech,—nis cymrai hon
Lyw o astrus law estron;
Ond tynged a brwnt angen,
A gwae ei phobl, blyga'i phen:
Llîn ein llon D'wysogion sydd
'Leni mewn daear lonydd:
Rho di'r llyw cadarn arnom
A dedwydd beunydd y b'om:—
Enwa 'nawr, er union waith,
Y gwr del wisga'r dalaith,
'Nol cyfraith, fel b'o rhaith rhom,
Na thyrr ing fyth awr rhyngom:
Ie, tyngwn, at angau,
Yn bur i hwn gwnawn barhau."

Fulion! ni wyddent falais,
Dichellion, na swynion Sais.

Dwedai'r blin Frenin ar frys—
"Felly ces fy ewylllys,
Doe y daeth, megis saeth, son
Yn erfai o Gaernarfon,
Fod mab rydd wynfyd i mi,
Nawdd anwyl, newydd eni;
A hwn fydd eich llywydd llon,
A'ch T'wysog enwog union:
Dal a wnaf, nes delo'n wr,
Drethi eich llywodraethwr;
Bellach, y bydd sarllach Sais,
Mawr ddilwrf Gymry ddeliais."

Gwelwent, a safent yn syn,
Ymhleth ddiachreth ddychryn;
A phob boch oedd yn brochi,—
Tro'i brad aml lygad i li.

Araeth Madog.

Ebai Madog, enwog wr,—
"Ha! rymusaf ormeswr!
Tybiais falch wawrwalch lle'r êl,
Wir awch, yn wr rhy uchel,
I lochi brad dan lech bron,
A challawr i ddichellion:
Ond ni wnei gu Gymru'n gaeth,
Bro dirion, â bradwriaeth;
Ni phryni serch prid, didwyll,
Ac odiaeth hon, gyda thwyll:
Os gall dy frad ddwyn gwlad glau
I gur a chwerw garcharau,—
Nis gall dy ewin-gall wau
Rhwym a ddalio'r meddyliau:
A oedd cochi perthi'n pau,
A llawruddio'n holl raddau,—
Ein llyfrau, a'n gotau gwaith,—
A'n haneddau ni'n oddaith,
Y teryll aer,—torri llw,
A'r brad ger Aberedw,—

Ow! ow! yn ddiwegi ddim yn ddigon,
I ddangaws, i araws i oes wyrion,
Fel rhyw anhawddgar ac afar gofion
Mai marwor meryw yw ystryw estron?
Ond am y wlad, deg-wlad hon,—gwybydd di,
Rhaid iti ei cholli, er dichellion.

“Os yw breg gwngus, a braw,
Fal wedi dal ein dwylaw,
Daw ail gynnwrf, dilwrf da,
I drigolion dewr Gwalia;
Codwn, arfogwn fagad,
O wrol wych wyr y wlad;
Mewn bâr y bonllefa’r llu
‘Camrwysg ni oddef Cymru,—
Rhi o’n huchel wehelyth,
Cymro boed i’r Cymry byth!’
Ni chaiff Sais, trwy ei drais, drin
Iau ar warr un o’r werin!
Daw’r telynau, mwythau myg,
Ddewr eu hwyl, oddiar helyg;
Rhed awen, er id wahardd,
Cerdd rhyfedd rhwng bysedd bardd;
Gwnant glymau a rhwymau rhom,
Enynnant y tân ynnom;
Dibrin pawb oll dadebrant,—
Heb ochel, i ryfel ’r ant;
A’n mynwes yn lloches llid,
Ein harwyddair fydd ‘Rhyddid!’

“Ag arfau ni wna’n gorfod
Tra’n creigiau a’n bylchau’n bod;
Cariwn mewn cof trwy’r cweryl,
Y’mhob bwlch, am Thermopyl;
Gwnawn weunydd a llwynydd llon,
Mawr hwythau, fel Marathon;
Yn benaf llefwn beunydd,—
‘Marw neu roi Cymru’n rhydd?’

“Os colli’n gwlad, anfad wyd,
O’r diwedd dan ruddfan raid,—
Yn lle trefn, cei pob lle troed,
Wedi ei gochi â’n gwaed;
Trenga’n meibion dewrion dig,
A llawryf am y llurig.

“Yn enw Crist eneiniog—ymroddaf
Am ryddid ardderchog;
A’r un Crist fu ar bren crôg,
Ni ymedy a Madog.”

E daw ar hyn,—d’ai ar ol
Ryw ddistawrwydd ystyriol.
Ac Iorwerth, ar y geiriau,
Fel llew dig ffyrnig mewn ffau;
Malais y Sais, echrys wg,
A welid yn ei olwg.

Tyb Euraid Ap Ifor.

O ryw fuddiol arfeddyd,—rhoi’n rhagor
Euraid Ap Ifor ei dyb hefyd,—

“Hyf agwrdd bendeffigion,
Rhy brysur yw’r antur hon;
Ar furiau tref, ai rhaid trin
Anhoff astalch a ffestin?
Mae llid yn fy mron hynaws,
At Saeson, a’u troion traws;
Ond serch, a glywserch i’m gwlad,
O’m calon a rwyddlon red;
Na ato fyth, etwa fod
Neint hon yn gochion i gyd,—
Arafwn,—o’r tro rhyfedd
Hwyrach cawn, y mwynhawn, hedd;
E ddaw ergyd ddiwyrgam,
Lawn cur, i ddial ein cam;
Ac hefyd dylid cofio,—

Er prudded, trymed y tro,—
Er angeu'r gair fu rhyngom,
'R amodau, rhwymau fu rho'm:
Pan roddo Gymro y gair,
Hwnnw erys yn wir-air;
Ei air fydd, beunydd heb ball,
Yn wir, fel llw un arall:
Ein hynys hon i estron aeth,
A chyfan o'n gwiw uchafiaeth;
Ond ni throes awch loes, na chledd,
Erioed mo ein hanrhydedd;
A'n hurddas a wnawn arddel,
Y dydd hwn, a doed a ddêl:
Ein hiawn bwys yn hyn, O bid,
Ar Dduw a'i wir addewid.
Duw a'n cyfyd ni, cofiwn,
Y diwedd, o'r hadledd hwn;
Heddyw, oedwn ddywedyd
Ein barn, yn gadarn i gyd;
Profwn beth dd'wed ein prif-fardd,—
Gwir iawn bwyll yw geiriau'n bardd;—
Pa lwyddiant, yn nhÿb Bleddyn,
A ddigwydd o herwydd hyn?"

Amneidient mewn munudyn
Ar yr ethol ddoniol ddyn,—
Yna, a phwys ar ben ei ffon,
Y gwelid y gwr gwiwlon:

Ei farf fel glân arian oedd,—mewn urddas,
Cyrhaeddai hon wasg ei wyrddion wisgoedd;
Yn null beirdd, enillai barch,—ar bob peth
E ddygai rywbeth hawddgar a hybarch.

Proffwydoliaeth Bleddyn.

D'wedai, agorai'r gwir-air,—
"Clyw frenin gerwin, y gair!
'R hyn ddaw, trwy fy llaw i'r llÿs,
Duw y dynged a'i dengys;
Am ennyn aer mwy na neb,
Troi a chynnal trychineb,
Gwneyd ochain yn seilfain sedd,—
Rhoi dy wersyll ar d'orsedd!
Am ddifrodi, llosgi, lladd,
Brad amlwg, a brwd ymladd;
A rhoi bro, mewn taro tynn,
I wylo am Lywelyn:—
(Iachawdwr a braich ydoedd,
Ac anadl ein cenedl oedd;)
Fel y rhoist gŵr, mesur maith,
Y telir i ti eilwaith.
O! trochaist lawryf mewn trwch-waed,
Dy arlwy wrth Gonwy oedd gwaed.
Hwn geraist yn lle gwirawd,—
Bleiddiaid sy'n ffoi rhag cnoi cnawd.

Y mae maith och mam a thad,
Gwaedd a chur gweddw a chariad,—
A main lle mae ymenydd
Llawer dewr, a gollai'r dydd,—
Temlau, ac aneddau'n wag,
Yn rhoi manwl air mynag,—
I un gwrdd ddwyn gwan yn gaeth,—
Iddo gael buddugoliaeth:
Ond llion mawrion am hyn
O ddialedd a ddilyn.

"Awr na feddyli, daw'r nef ddialydd,
Dy waed oera ar dywod y Werydd;
Cydwybod Iwfr wna dwrf cyn y derfydd,
Hon a'th boena—gyrr ddrain i'th obenydd;
Caiff Brython gwirion dan gerydd—fyw'n llon,
Eu muriau'n llawnion, a marw'n llonydd.

"A gwaeth nac oll a wnaethost,
Mewn du fâr mynni dy fost,—

Gwenaist pan gwelaist galon
Wiw a phur ar waew-ffon!
Ti ddigred, ni roist ddeigryn
Yn y lle yr wylwyd llyn!
Llanwaist gron goron â gwaed,
Ac arall yf y gorwaed!
Clyw'n sŵn!—mwd Berceley'n seinio, {26}
Dychryn i'w ganlyn ac O!
Marwol loesion bron Brenin,
Tan grafangau bleiddiau blin.
Hyfryd dduwiesau Hafren,
Pan glywant a wisgant wên.

Daw blwyddau llid a bloeddiad,
Du hin, ar warthaf dy had!
Clyw! ddolefau, briwiau bron,
O'r Tŵr Gwyn {27} mae'r taer gwynion;
Dy hilion, mewn du alaeth,
O dan gudd, leiddiaid, yn gaeth!
A mynych gwna cromeni
Y Tŵr cras watwor eu cri:
Ni adewir o'r diwedd
Wr o dy sil ar dy sedd.

“Ha! ha! 'r dwyrain egyr ei dorau,—
Ai cwrel sydd yn lliwio cyrrau
Creigydd, moelydd, a du gymylau?
Nage, gwawrddydd glân, eirian oriau,
Wiwber anwyl sydd ar y brynau;
Gwelwch Gymru ar fynydd golau,
A'n iach wyrion o'i chylch yn chwaraeu,
(Rhos sy' o danynt ar sidanau,)
Hust! ust! ust!—mae'n dyfod i'm clustiau,
Gathl enwog oddiar ei thelynau,—
Cerddorion a Beirdd, heirdd eu hurddau,
Yn dorf bloeddiant,—'Wi! darfu blwyddau
Yr ochain anwar a chynhennau;—
Par y dôn i'm hyspryd innau—roi llam,
Mwy e grychneidia'm gorwych nwydau.

“Daw dyddiau mâd a diddan,
A mawr lwydd i Gymru lân;
Dyddiau bwrcaswyd iddi,
Ar dy ddichell dywell di;
O Dduw Ner daw'r hoewder hwn,
I'n Duw eilchwyl diolchwn:
Derfydd amser blyngder blin,
Curaw tymhestlog gerwin.
Daw hinon a daioni
O dy drais, na's tybiaist ti;
Bydd cof mewn gwledd am heddyw,
A chlod am it' fod yn fyw:
Iach amrant Lloegr a Chymru,
Daw'r ddwy-wlad mewn cariad cu;
Yna'n y ddwy mwy ni ddêl,
I'w trefi helynt rhyfel;
Un llys fydd drwy'n hynys hon,
Una'i gwyr dan un goron;
Unant nerth, rhag rhyferthwy,
Un reddf ac un ddeddf i'r ddwy;
Un Duw arnynt, un deyrnas,
Un lluoedd, un floedd, un flas:
Gwelaf Frython, {28}—'rwy'n llonni,
Yn eistedd ar d'orsedd di!
Ac o ystlys a gwestle,
Y gyllell hir gyll ei lle:
A o gof ymladdau gant,
Eu hing hefyd anghofiant;
Cant gyd-fwynhau breintiau braf,
Law-law i'r genedl olaf:
Lle gwelwyd twyll a galar,
Echrys boen, a chroes a bâr,—
Rhinwedd welir a hinon,
Gwenau, a bonllefau llon;
Rhyfela dry'n orfoledd,
Screchiadau yn hymnau hedd.

Ar eirian fro Eryri,
Ei chreigiau a'i hochrau hi,—
Lle mae trigfa'r bâr yn bod,
A dwyn arfau dan orfod;—
Lle gwelir llu y gelyn,
A'u bloedd hell, y blwyddau hyn,—
Anhirion elynion lu,
A'u tariannau'n terwynu;—
Anianawl serch yn ennyn,
A ffoi at y gwaew-ffyn;—
Tyf breilos, a rhos di-ri',
Ar hon, a'r loew lili;
Eos fydd bob dydd yn dod
I fryn, yn lle cigfranod:

“Ar y llethri a'r tyli telaid,
Tybiaf y gwelaf y bugeiliaid,
Lwythau dofion, yn mhlith eu defaid,
Tarfant a chanant ffwrdd ochenaid,
Llamsach wŷn bach yn ddibaid,—mor ddifyr,
Chwim a mygyr gylch y mamogiaid.

“Lle codwyd bwyeill cedyrn,
Bydd twmpathau chwaraeu chwyrn;
Dawnsio pan y darffo y dydd,
A thelyn ar frith ddolydd:
I'n hynys, pan ei hunir,
Daw tawelwch, heddwch hir;
A chywir heddwch a rhyddid
Wneir y dydd hwnnw yn aur did;
Ar wddwf Cymru rhoddir
Y gadwen hon i gadw'n hir;
Y drefn gaeth wriogaethol,
Mwya'i nerth, a i ddim yn ol;
Bydd un gyfraith, 'run rhaith rhawg,
I lwyth isel, a Th'wysawg:
Iraidd wiwlon rydd-ddeiliaid,
Ri'r gwlyth, yn eu plith o'u plaid;
Colofnau y breintiau bras,
A chadarn-weilch y deyrnas;
Ar bob mater a cherydd,
Rheithwyr yn farnwyr a fydd:
'R un fro wnaeth gwyar yn frith,
O dda gynnyrch ddwg wenith;
Cod yr amaeth, cydia'i rwymau,
Cain reolau, cyn yr haulwen;
Deil waith odiaeth, dôl a thidau,
Iau a bachau lle bo ychen;
Teifl yr hadau,—llusga'r ogau,
Egyr ddorau gwâr ddaearen,
Er cael cnydiau, yn eu prydiau,
Rhag i eisiau rwygo asen.

“Esmwytho nos amaethydd,
Heddwch, diofalwch fydd,—
Y daw gelyn digwilydd
I'r berllan, na'r ydlan rydd;
Ac ni raid braw daw un dydd,
Ryw ormeswr i'r maesydd,
Neu Fodur cryf i fedd
'Nol anferth drafferth i drin:
Tybia'i wlad yn Baradwys,—
Dyry gainc wrth dorri'i gwys
A swch fuasai awchus
Gleddyf un dewr hyf di-rus;
Ymaith ar unwaith yr a,
Uwch ei boen y chwibiana.

“Ac anterth cymer gyntun,
Heb i ofal atal hun;
O hyd yn ddiwyd ddiarf
Heb fod dan orfod dwyn arf
Heb elynion o Gonwy
O fewn maes i'w hofni mwy.



CASTELL CONWY.

"Heb eynion o Gonwy
O tewn maes f'w hofni mwy."

"A thew ffrwyth âr
Gwnna'n gynnar;
Daw mawnog, gallt, a mynydd,
A bronydd, yn dir braenar.
"Y ddwy wlad cyd addolant,
Cyd foli'r Iôn union wnant;
Rhont glodydd i'w Dofydd da,
Law-law mewn Haleluia:

"Yna y tyf yn y tir
Bob helaeth wybodaeth bur,
O ddirgelion meithion môr,
Daear, a'i sail, hyd i'r sêr.

"Helicon pob ffynnon ffel,
Parnassus pob bryn isel:
Eu rhyfedd faner hefyd
Achuba, orchfyga fyd;
O Gressi'r maes hagr asw,
I antur lân Waterlw:
Ac y diwrnod cadarnwych
Bydd y deyrnas addas wych
Heb ei bath, heibio i bob
Un arall o fewn Ewrob;
Rheola mewn rhialyd
O begwn i begwn byd."

Gyda bloedd, gweda Bleddyn,
"Y nefol Iôr wna fel hyn,
Foreu tawel o frad tywyll,
A llewyrcha o'r ddichell erchyll:
Molwn Dduw y Nef, gan sefyll,
Yna pawb a awn i'n pebyll."

CERDD CALAN GWYLIEDYDD Y WYDDGRUG.

Ymysgydwch o'ch cysgadwydd—
Yn filoedd dowch i foli Duw;
Torrodd gwawr ar flwyddyn newydd,
Gobeithiaf mai un ddedwydd yw:
Mae pob Calan fel yn gwaeddi,
A'r tymhorau bob yr un,—
Yn eu dull yn dwys bregethu—

“Derfydd dyddiau byrion dyn.”

Heddyw’m gorchwyl innau dderfydd,
Alwai’n chwaneg mo’no chwi;
Drwy fy nghylch yn bur wyliedydd
A lladmerydd y bum i;
Mi fynegwn ddull y tywydd,
P’un ai teg ai garw’r gwaith,
Fel y gwypech ar obenydd
Ai addas oedd y dydd i daith.

Do, mi wyliais gylch eich drysau
Ar ryw oerion oriau hir,
Rhag i ddynion drwg eu nwydau
Dorri eich aneddau’n wir;
Tywydd garw, mwy nag oerni,
Ni wnai nhroi oddiar fy nhaith,
A chan ofal i’ch gwas’naethu
Methais gysgu lawer gwaith.

Daeth fy ystod at ei therfyn,
Darfu’m tro oddeutu’ch tre’,
Un galenig wyf yn ofyn
Am fy llafur yn y lle;
Chwi sy’n meddu da a moddion—
Digon sy’n eich llety llawn,—
Gwnai ychydig o’ch gweddillion
DIC a’i deulu’n llawen iawn.

LLWYDD GROEG.

Awdl ar fuddugoliaethau diweddar y Groegiaid ar y Tyrchiaid.

Llwydd, llwydd, fwyn arwydd, i fanerau—Groeg,
Hir rwyged ei llongau
Bob rhes o lu gormes gau,
Drwy’r moroedd draw a’r muriau.

“A llwydd gyfarwydd a fo
I’w Rhyddid, yn eu rhwyddo:
Na lanwed yn oleuni,
Cafn y Lloer [{33}](#) uwch cefn y lli’;
Ond isel, isel eisoes
Drwy gred ymgrymed i’r Groes.

A thra tonn, Marathon, a muriau,
A rhin milwyr yr hen ymylau,
A gaent ffyniant gynt a hoff enwau,
O’u iawn baroddrwydd, yn eu brwydrau,
Gwasgarer, gyrrer dan gaerau,—yn haid,
Weis Soldaniaid, isel eu doniau.”



MARATHON.

“A thra tonn, Marathon, a muriau,
A rhin mi wyr yr hen ymylau.”

Fal hyn o bob dyffryn deg,
Ac ynys a gylch gwaneg;
O'r tyrau muriau mawrion,
Mannau dysg a min y donn,—
Y glau Awen a glywodd
Y llais, a'r adlais a rodd
Groeg hen, yn gwiriaw cynnydd
Ei golau ddawn ac ail ddydd.

Ar ystlysau ei mynyddau,
A'i ffynhonnau hoff yn unawl,
Gwelwyd chwithau, a'ch telynau,
Hen dduwiesau hoen ddewisawl;
Yn galw o'i nych i'w goleu'n ol—eich gwlad,
Ac iawn fwriad, a gwe anfarwawl.

Ac wrth wych adlais, a gwyrth eich odlau,
Cysgodolion y diwydion dadau,
Yr aml areithwyr, y milwyr hwythau,
Gwyr fu o ddinam ragoraf ddoniau,
A neidiant, beiddiant o'u beddau,—a'u plant
A iawn gynhyrfant hwy i gain arfau.

Mae Pindar, oedd gân gorwyllt,
A dawn ei gân o dân gwyllt;
Tyrtæus yn troi tuedd,
I roi clod i wyr y cledd:
“O! (meddant,) p'le mwy addien,
Yn gwrr c'oeidd, nag yw'n Groeg hen?
Ein gwlad fwyn, o glod a fu,
Unwaith, yn mawr dywynnu,
Eto'i gyd ytyw a'i gwedd,
A'i rhannau yn llawn rhinwedd:
Ym mro bon y mae hir haf,
Bêr awel a byrr aeaf.
Yr haul y sy'n rheoli,
Heb roi haint, ar ei bro hi;
Mae nos, yn ei mynwesydd,
Megis chwaer ddisglaer i ddydd;
Aml y lle, ym mol ei llawr,
A mannau'r harddaf mynawr;
Hemætus felus y fydd,
A diliau mêl ei dolydd;
A'i ffrwythydd gwinwydd, fal gynt,
Di-odid mai da ydynt.
Holl natur bur heb wyro,
Sy'r un fraint i'r seirian fro,
A phan oedd, yn hoff ei nerth,
Briod-fan pob dawn brydferth.

“Yma gwir Ryddid, a’i mŷg aur roddion,
Sef celfyddydau a doniau dynion:
Rhin a roi eil-oes i’r hen wrolion,
A gair odiaethawl i’w gorau doethion,
A wnaent gynt i helynt hon—anrhydedd,
Ynt, (ddi-hoff agwedd) o tan ddiffygion.”

Wrth eu haraith, effaith ddig,
Dawn y wlad, yn weledig,
Fal yspryd tanllyd o’u tu,
A wnae’n anadl enynnu,—
Gan ddangos, yn achos Ner,
A’i fendith, a’i gyfiawnder,
Y mawr fri o dorri’r did,
I ymroddi am Ryddid.

Pwy ar alwad, a piau wroliaeth,
Ni ddaw i’w dilyn, a nawdd o’i dalaeth,
A rhin fal arwyr yr hen filwriaeth,
Draw a hwyliant i Droia ehelaeth,
Os y goll o Ryddid sy’ gwaeth—na’r hen
Golled o Helen, gai hyll hudoliaeth?

Hen anghrist, un athrist oedd,
O’r tu arall i’r tiroedd,
A gododd,—gwaethodd drwy’r gad,
Ar filoedd i’w rhyfeliad:
Un oedd o’r rhai aneddant
Uffern boeth yn ei ffwrn bant,—
Hoffai lid a gofid gau,
A’i llwydd ydoedd lladdiadau;
Seirph tanllyd, gwaedlyd eu gwedd,
Gwenwynig, (gwae anhunedd)
Ei gwallt oedd,—a gwyllt eiddig,
Rhag hedd oedd dannedd ei dig;
Ei llygaid yn danbaid des
Oedd uffernawl ddwy ffwrnes;
A’u sylwedd, o’r iseloedd,
A’u mawr lid, tra marwawl oedd.

O! pa ryfel, a’i uchel ochain,
Dial a’i ofid, a dolefain,
O’i chodiad irad yn y Dwyrain,

’Fu’r un baich i fawrion a bychain;
Baban a mam (un ddamwain) lle cafodd,
Dieneidiodd o dan ei hadain.

Ond Duw’r hedd o’i ryfedd rad,
Yn ‘diwedd, roi wrandawriad
I’w blant,—pan godent eu bloedd,
Dan ofid hyd y nefoedd:
O Scio wylo, alaeth,
I’w glustiau’n ddiâu a ddaeth;
A rhoes, Iôr y Groes, ar gri,
Dyst eirian o’i dosturi;
D’ai’n gymorth, da borth di-baid,
Nes i ryw’r Nazareaid,
Rai marwawl, er eu muriau,
Ac erfyn eu gelyn gau.

Angylion, genadon gwynion gannoedd,
Gyrrai i’w llywiaw, y gorau lluoedd,
Rhwygent y muriau, rhoi gwynt y moroedd
I’r ddi-ofn daran, hwyl ar ddyfnderoedd,
Llu’r Proffwyd dan arswyd oedd—pan welent,
Hwy draw a gilient i eu dirgeloedd.

Yn awr (a Duw’n ei wiriaw)
Golygwn ddwthwn a ddaw,—
Pan deflir, lluchir i’r llawr
Ddu arfawg anghrist ddirfawr;
A phan gair, yn hoff ei gwedd,
Gaer enwawg i’r gwirionedd:
Drwy reol gwydrau’r awen,
Draw’r llwydd a welaf drwy’r llen;—
Llwydd oesoedd lluoedd Iesu,
Pan gânt y feddiant a fu

O ddiwall wlad addewid,
Heb gaethder, llymder, na llid.

Gyrr y Dwyrain, ac oer ia diroedd
Y dwfn eira, eu di-ofn yrroedd;
Gyrr y Deau hithau ei hieithoedd,
A Gorllewin ei gorau lluoedd;
Un fwriad a niferoedd—y fawr-blaid
O Groesadiaid, ac eres ydoedd.

Bydd ar dyrau Salem furiau,
Y banerau yn ben arwydd,
I'r tylwythau, ar eu teithiau
I le'u tadau, olud dedwydd;
Ar Fosciaid y blaid heb lwydd,—dyrchefir
Ac eres welir y Groes hylwydd.

A thi, Roeg, a'th ddaear wych,
A'th awyr brydferth hoew-wych,
A welir eto eilwaith,
Fal gynt, er rhyfelawg waith,
Yn llwyddo'n fronlle addysg,
A lle llawn pob dawn a dysg;
Byddi, heb nam, yn fam faeth
I rinwedd—i wroniaeth—
I ddiwyll gelfyddydau,
Pob llwydd, a wna pawb wellhau;
I bob mād gariad gwladawl,
A fu gynt dy fwya' gwawl.

Ac iawn adferir, gwnn, dy furiau,
Dy awen, llwynydd, dy winllanau,
Dy brif-ysgolion, dirion dyrau,
Lleoedd doethion ddynion o ddoniau;
Sparta hen, Athen hithau—a gant lwydd,
A fydd ddedwydd o gelfyddydau.

Darlunir hyd ar lenni,
A mynnir, gwn, o'th meini
Gelfyddyd byd heb oedi;
Y dynion a adweini,
Yn rhediad eu mawrhydi,
Yn eil-oes, gwnn, a weli;
Eu cerf-ddelwau, lluniau llawn,
Fodd uniawn, a feddieni.

Llwydd, llwydd, a dawn rwydd, dan ryddid—eto
Iti a chalondid:
Yn y byd hwn, na boed tid
Dan nefoedd yn dynn ofid.

Ond aed (ac O! nad oedd)—lywodraeth
Ddi-ledryw gwlad Alffred,
A'i moliant i ymweled
A thir y Gryw, a thrwy Gred.

Y Rhyddid sydd gyd-raddawl,—oll hydrefn
A llywodraeth wladawl,
Sydd dda;—a chyd-gerdda gwawl
Gair yr Iesu, gwir rasawl.

A llwydd Dduw iddi, a lleoedd heddwch,
Gyrred allan o'i gaerau dywyllwch:
I ni y mae digon yma o degwch
Gael in', a'i hurddas, Gwalia'n ei harddwch;
Nes troi'n glynnau'n fflamau fflwch,—a'n creigiau,
Llonned ei dyddiau'n llên â dedwyddwch.

HAWDDAMOR.

Englynion ar agoriad Eisteddfod Caerwys, 1823.

Nawddamor bob gradd yma,—orwych feirdd,
Rhowch fyrddau 'ni wleda;
Lluman arfoll Minerfa
Sydd uwch Caerwys ddilys dda.

Bu Caerwys, er pob corwynt—a 'sgydwai

Weis cedyrn eu tremynt,—
Er braw, anhylaw helynt,
Nyth y gain farddoniaeth gynt.

Troi o hyd mae byd heb oedi—â'n isel,
Mewn oesoedd, brif drefi;
Rhoes Groeg hen, a'i Hathen hi,
Awr i Gaerwys ragori.



CAERWYS.
"Er braw, anhylaw helynt,
Nyth y gain farddoniaeth gynt."



UN O HEOLYDD CAERWYS.
"Rhoes Groeg hen, a'i Hathen hi,
Awr i Gaerwys ragori."

DAFYDD IONAWR.

Englyn o fawl i'r Bardd clodwiw am ei ymdrechiau haeddbarch i ddiddefnu yr Awen oddiwrth ffiloreg a sothach, a'i chysegru i wasanaeth rhinwedd a duwioldeb.

Yr Awen burwen gadd barch,—unionwyd
Gan IONAWR o'i hamharch;
Hefelydd i glaf alarch
A'i mawl yw yn ymyl arch.

GWYL DDEWI.

Penhillion a ddatganwyd yn Nghymdeithas Gymroaidd Rhuthyn, Gwyl Ddewi, 1823.

Tôn,—“*Ar hyd y Nos.*”

Trystio arfau tros y terfyn,
Corn yn deffro cawri y dyffryn,—
Tanio celloedd—gwaed yn colli,
Yn mro Rhuthyn gynt fu’n peri
I’r ael dduo ar Wyl Ddewi,
Ar hyd y nos.

Heddyw darfu ystryw estron,
Ellyll hwyr, a chyllill hirion;
Saeson fu’n elynion inni,
Heno gwisgant genin gwisgi—
Law-law’n dawel Wyl ein Dewi,
Ar hyd y nos.

Clywch trwy Gymru’r beraidd gyngan
Rhwygo awyr â goroian—
Swn telynau—adsain llethri—
O Blumlumon i Eryri—
Gwalia ddywed—‘Daeth Gwyl Ddewi,’
Ar hyd y wlad.

Felly ninnau rhoddwn fonllef
Peraidd lais ac adlais cydlef;
Rhaid i’r galon wirion oeri
Cyn’r anghofiwn wlad ein geni,
Na gwledd Awen bob Gwyl Ddewi,
Ar hyd y wlad.

EISTEDDFOD Y WYDDGRUG.

AT MR. E. PARRY, CAERLLEON.

Wyddgrug, Awst 16eg, 1823.

Goroian! goroian! Mr. Parry anwyl. Bydd Callestr yn enwocaf o’r enwogion eto. Yr ydwyf newydd ddychwelyd o ystafell y dirprwywyr yn y Leeswood Arms, lle y cydsyniodd y gwladgarol Syr Edward Llwyd i gymeryd y gadair yn ein Heisteddfod; a rhoddodd £5 at ddwyn y draul. Gosododd y mater o flaen yr uchel-reithwyr (*grand jury*) am y Sir, a thanysgrifiodd pob un o honynt bunt, gydag addaw ei noddi. Taflood yr Uchel-sirydd ei deir-punt at y draul, gan addunedu, er mai Sais oedd, y byddai iddo noddi athrylith gwlad ei henafiaid hyd angeu. Dyma ddechreu yn iawn onide! Bellach, fy nghyfaill, ni raid i chwi wrido wrth son am eich sir gynhennid. Mae tân yn y gallestr, ac wedi ei tharaw o dde, hi a wna holl Gymru “yn brydferth goelcerth i gyd.” Gosododd Callestr yr engraifft i holl siroedd eraill Cymru, trwy gymeryd y peth yn orchwyl y sir, yn y cyfarfod uchaf sydd ganddi.

Nid oeddyr ar y cyntaf yn meddwl ond am un bunt yn wobrau am y cyfansoddiadau goreu; maent yn awr wedi eu codi i hump, a disgwylir pan y cyferfydd y dirprwywyr nesaf y gellir eu hychwanegu eto. Dyna’r pryd y llwyr benderfynir ar y testynau, yr amser, y barnwyr, a’r gwobrau; a byddaf yn sicr o anfon rhai o’r hysbysiadau argraffedig yn gyntaf oll i fy nghyfaill caredig a gwresog o Gaer, heb ddim mwy na’i weled yn ymgeisiwr llwyddianus.

Mi a glywais fod Mrs. Parry a’i mab yn iach galonnog.—Dyma i chwi ychydig rigwm a gysoddais wythnos neu ddwy yn ol, ar destun a mesur cân ragorach y doniol Erfyl. Chwi a welwch wrthi mai amcan at annerch y “gwr ieuanc dieithr” ydyw, fel pe buaswn wyddfodol.

Henffych, amhrisiadwy drysor,
Blaenffrwyth y serchiadau mâd;
Ni fedd natur bleser rhagor
Na theimladau mam a thad.

Wrth olygu’th wyneb siriol,
Gaiff dieithr godi ei lef,
’Mhell uwchlaw syniadau bydol—
Erfyn it’ fendithion Nef?

Nid am gyfoeth, clod, na glendid
Caiff fy nymuniadau fod;
Dylai deiliaid tragwyddolgyd
Gyrchu at amgenach nod.

Boed i’th rudd sy’n awr a’i gogwydd
At y bur dyneraidd fron,
Ddangos oedran diniweidrwydd,—
Gwisged bob lledneisrwydd llon.

Dy wefus sydd wrth ei chusanu
’N ail i rosyn teg ei liw,—

Boed i hon yn ieuanc ddysgu
Deisyf am fendithion Duw.

Na wna achos wylo defnyn
O'r llygaid 'nawr mewn cwsg sy'n cloi,
Ond i dlodi dyro ddeigryn
Os na feddi fwy i'w roi.

Dy ddwy law, sy'n awr mor dyner,
Na bo iddynt gynnyg cam;
Ond rho 'mhleth i ddweyd dy bader
Ac i ofyn bendith mam.

Na boed gwên dy wyneb tirion
Byth yn gymysg gyda thrals,
Ac na chaffo brad ddichellion
Le i lechu dan dy ais.

Na boed byth i'th draed ysgogi
Oddiar ffordd ddaionus Duw:
Er ei chau â drain a drysni—
Llwybr i'r Baradwys yw.

Boed i'th riaint fyw i'th arwain
Gam a cham ar lwybrau gwir;
Na foed arnat ras yn angen
Tra yma yn yr anial dir.

Yr ydwyf yn gyrru eich llyfrau yn ol, gyda'r diolchgaiwch gwresocaf am eu benthyg. Yn y sypyn, hefyd, cewch hen ysgrif-lyfr, haws ei ddeall na'r llall: mynnwn gyfeirio eich sylw at y "Cywydd i law merch," ac ni chewch eich siomi. Mae beirniaid da wedi meddwl mai llaw ysgrifen SION TUDUR ei hun ydyw y llyfr hwn, ond prin y gallaf goelio hynny. Yn Rhuthyn y prynais i ef, am 1s. 6c. 'Digon o newid arno,' meddwch chwithau. Pe meddylwn na byddai yn bechod anfaddeuol, gormeswn ar eich tiriondeb ymhellach, a gofynwn am fenthyg *Transactions of the Cymmrodorion*, yn ol gyda'r dygiedydd. Yr ydwyf, ar ddymuniad gwr Eglwysig, yn bwriadu cyfieithu "Hanes y Cymry, o farwolaeth Llewelyn hyd eu hundeb â Lloegr."

Maddeuwch fusingrellni fy llythyr,—yn wir mae gorfoledd am lwyddiant ein Heisteddfod wedi fy nghymysgu yn llwyr, fel na wn pa beth a ysgrifenisais.

"RHYWUN."

Clywais lawer son a siarad
Fod rhyw boen yn dilyn cariad;
Ar y son gwnawn innau chwerthin
Nes y gwelais wyneb Rhywun.

Ni wna cyngor, ni wna cysur,
Ni wna canmil mwy o ddolur,
Ac ni wna ceryddon undyn
Beri im' beidio caru Rhywun.

Gwyn ac oer yw marmor mynydd,
Gwyn ac oer yw ewyn nentydd;
Gwyn ac oer yw eira Berwyn,
Gwynnach, oerach, dwyfron Rhywun.

Er cael llygaid fel y perlau.
Er cael cwrel yn wefusau,
Er cael gruddiau fel y rhosyn,
Carreg ydyw calon Rhywun.

Tra bo clogwyn yn Eryri,
Tra bo coed ar ben y Beili,
Tra bo dwfr yn afon Alun,
Cadwaf galon bur i Rywun.

Pa le bynnag bo'm tyngedfen,
P'un ai Berhiw ai Rhydychen,
Am fy nghariad os bydd gofyn,
Fy unig ateb i fydd—Rhywun.

Caiff yr haul fachludo'r borau,
Ac a moelydd yn gymylau,—
Gwisgir fi mewn amdo purwyn
Cyn y peidiaf garu Rhywun.



CARTREF GWYN.
 "Gwynnach, oerach, dwyfron Rhywun."

MAES GARMON.

Rhagymadrodd.

Boed Hector flaenor a'i floedd,
 Eirf Illium a'i rhyfeloedd,
 Groeg anwar mewn garw gynnen,
 Bynciau y per Homer hen;
 Hidled Virgil, wiwged was,
 Wîn awen uwch Æneas;
 Gwnaed eraill ganiad eurwedd
 Am arfau claer,—am rwyf cledd,
 Byllt trwy dân gwyllt yn gwau,
 Mŵg a niwl o'r magnelau;
 Brad rhyw haid, a brwydrau hen,
 Oes, a phleidiau Maes Flodden; {45a}
 Gwarchau, a dagrau digrawn,
 Cotinth a Valencia lawn, {45b}
 Eiliant bleth, a molant blaid
 Gywreinwyd ei gwroniaid.

Mae gennyf yma i ganu
 Fwy gwron, sef Garmon gu;
 Ag eirf dig eu gorfod oedd,
 Gorfodaeth braich gref ydoedd;
 Hwn gadd glod a gorfodaeth
 Heb ergyd na syflyd saeth;
 I lu duwiol a diarf
 Yn wyrth oedd,—ac heb nerth arf;
 Duw yn blaid, a wnae eu bloedd
 Heibio i ddawn y byddinoedd.

Hwyrddydd ar y Môr.

Y dwthwn 'raeth cymdeithas
 Gwyr Rhufain, o Frydain fras,
 Ar hwyrddydd o ryw harddaf,
 Mwynna 'rioed yn min yr haf;
 E giliai'r haul, glauar hin,
 Ag aur lliwiau'r Gorllewin;
 Goreurai gyrrau oerion,
 Ferwawg a del frig y donn;
 Holl natur llawen ytoedd,
 Ystŵr, na dwndwr, nid oedd;
 Ond sibrwd deng ffrwd ffreudeg
 Llorf dannau y tonnau teg;
 A'r tawel ddof awelon,
 Awyr deg ar warr y donn;
 Tôn ar dôn yn ymdaenu,
 Holl anian mewn cyngan cu,

Gwawr oedd hyn, a gyrr i ddod,
Ac armel o flaen gwermod;
Cwmwl dwl yn adeiliaw,
Oedd i'w weled fel lled llaw.

Tymhestl.

Ael wybren, oedd oleubryd,—a guddid
Gan gaddug dychrynlyd,—
Enynnai yr un ennyd,
Fel anferth goelcerth i gyd.
Môr a thir a'u mawrwaith oedd,
Yn awr, fal mawr ryfeloedd;
Mawr eigion yn ymrwygo,
Ar fol ei gryf wely gro;
Archai—gan guro'i erchwyn,
A'i dwrw ffrom—dorri ei ffrwyn;
Ymwân Udd {47} uwch mynyddoedd,
At y Nef yn estyn oedd;
Dynoethid yna weithion,
Draw i'r dydd, odreu'r donn;
Dodwodd y cwmwl dudew
Ei genllysg i'r terfysg tew;
A'r gwyntoedd rwygent entyrch,
Neifion deifl i'r Nef yn dyrch;
Deuai nos i doi y nen,
Duai'n ebrwydd dan wybren;
Ac o'r erchyll dywyll do
Tân a mellt yn ymwylltio;
Taranent nes torwynnu
Y llynclyn diderfyn du.

Yn msg y terfysg twrf-faith
Gwelid llong, uwch gwaelod llaith,
Yn morio yn erbyn mawr-wynt,—
Môr yn dygyfor, a'r gwynt
Wnai'r hwyliâu'n ddarnau'n ei ddig,
A'r llyw ydoedd ddrylliedig;
Mynedyddion mwyn doddynt,
Eu gwaedd a glywid drwy'r gwynt;
Llef irad a llygad lli,
Y galon ddewra'n gwelwi;
Anobaith do'i wynebaw,
Ac ofn dôr y gwyllt-fôr gau,
Gwynnodd pob gwep gan gynni,—
Llewygent,—crynent rhag cri
Gwylan ar ben'r hwyllbren rhydd,
"Ysturmant yr ystormydd!"
A mawrwyh galon morwr,
Llawn o dân, droai'n llyn dŵr;
Llw fu'n hawdd, droe'n llefain O!
A chên elwch yn wylo.

Garmon a Bleiddan.

Yn mawr swm ymrysonau
'R tro, 'roedd yno ryw ddau
Llon hedd ar eu gwedd hwy gaid,
A chanent heb ochenaid:
Un Garmon, gelyn gormail,
A Bleiddan ddiddan oedd ail;
Gwelent drigfannau gwiwlôn,
Ac iach le teg, uwchlaw tonn,—
Lle nad oes loes, fel isod,
Nac un westl dymestl yn dod;
Eiddunent hwy Dduw anian,—
Traethaf a gofiat o'r gân.

"Hyd atad, ein Duw, eto,
Dyneswn, edrychwn dro;
Rhown i ti, rhwng cernau tonn,
Hael Geli, fawl o galon;
Rhued nawf, nis rhaid i ni,
Uwch ei safn, achos ofni:
Y lli dwfr sy'n y llaw dâu,—
Dy law, 'n Ion, a'n deil ninnau.

“Ti yw arweinydd y taranau,
Tefli y sythion fellt fel saethau,—
Gan roi, a dwyn, dy ffrwyn yn ffroenau
Anwar dymestl,—mae’n wir diamau:
Yng nghynnen yr elfennau—rhoddi’r gwynt,
Gelwi gorwynt,—neu gloi ei gaerau.

“Y môr uthr udawl, a’i dra mawr ruthriadau,
Y sydd fel moelydd uwch y cymylau;
Yr wyt ti, Ynad, ar warr y tonnau,
Yn trefnu hynt y chwerw-wynt i chwaraeu;
Cesgli’r gwynt chwyrn i’th ddyrnau,—yn sydyn,
Arafa wedyn bob cynhyrifiadau.

“Pa ragor in’ for yn fedd
Na gwaun dir i gnawd orwedd?
Cawn i’th gôl o farwol fyd,
Yn nydd angeu’n hawdd ddiengyd,—
Mae’n calon yn boddloni
I uniawn drefn Un yn Dri.”

Pan ar ben gorffen y gân
Y terfynai twrf anian;
Clywai’r Un sy’n cloriannu
Rhawd, o’r ser i’r dyfnder du:
Arafodd, llaesodd y lli,
Trychineb, a’r trochioni;
Môr a nen ymyrrai’n ol,
I ddistawrwydd ystyriol;
Deuai hwyl a da helynt
Y donn yn gyson â’r gwynt;
Mewn un llais rhoent hymnau’n llon,
I’r hwn a roes yr hinon;
Yna y chwai dorrai dydd,—
Dyna lan Prydain lonydd.
Doe’r llong, ar ddiddan waneg,
I ben y daith—Albion deg.

Prydain yn 429.

Hîl Gomer yr amser hyn,
Oedd o nodwedd anhydyn;
Amryw nwyd wnae Gymru’n waeth,
Mawr gynnen, a Morganiaeth;
Gwyr digariad i’w goror,
Lanwai â cham, lan a chôr:
Rhai ffol yn cymysgu’r ffydd
A choelion am uchelwydd;
Gwadu Crist, neu gydio’u cred
Ar glebr am “dreiglo abred”;
Pictiaid, Ysgotiaid, weis cas,
Ruthrent, lunient alanas;
A Phrydain heb undeb oedd,
Na llyw wrth ben ei lluoedd;
Y llysoedd, yn lle iesin
Farnu gwael, oe’nt defyrn gwin;
Brad amlwg, a brwd ymladd,
Gorthrech, cri, lloggi, a lladd,
Wnae Albion,—â’u troion trwch
Yn ail i ryw anialwch.

Taith y ddau.

Y teulu apostolaidd
Eu bron, cyn gorffwyso braidd,
Drwy’r wlad, ar waith clodadwy
Eu Tad, ymagnient hwy.

Gan foreu godi,—rhoddi’n rhwyddion
Fyrr o Gilead wrth friwiau gwaelion;
Digyrith bleidio gwirion—rhag gwrthdrin,
Rhoi llaeth a gwin i’r llwythau gweinion.

Cynhadledd a’r Morganiaid.

Iselaidd furiau Salem
Godent, ac urddent â gem;
A gem y ddau ddegymydd,

Fu aur a ffurf y wir ffydd;
Gemau'r gair, disglair, dwys,
Yw parwydydd Paradwys;
Er gogan, a phob anair,
Dysgent, pregethent y gair,
Nes cwnnu'r llesg gwan o'r llaid,—
Taro'r annuw trwy'r enaid:
Lle blin a hyll o'u blaen oedd,
Ail Eden o'u hol ydoedd;
O flaen rhain, diflannu'r oedd
Heresiau mwya'r oesoedd;
Tost iawn chwedl i genedl gam
Fu'r holiad yn Verulam:
Ugeiniau o'r Morganiaid,
Ddynion blwng, oedd yno'n blaid:
Llwyddai Ion y dynion da,
Er c'wilydd Agricola;
Ar air Ion, i lawr yr aeth
Muriau gweinion Morganiaeth.

Dynion oedd dan adenydd—ystlumaidd
Gwestl amhur goelgrefydd;
Ymagorai'r magwrydd,
Gwelen' deg oleuni dydd.

Morganiaid er mawr gynnwrf,
Hwynt yn eu llid droent yn llwfr;
Yna'r dorf anwar a dig,
At y gwyr godent gerrig,—
A mynnent bwyo 'mennydd
Y rhai ffol fu'n gwyro'r ffydd!
Ond y graslon Garmon gu
A ataliodd y teulu:
Bleiddan, ar hynny, bloeddai,—
“Clywch! eon, ry eon rai!
Pwyllwch, arafwch ryw faint!
Godde' sy'n gweddu i saint;
I'n Duw y perthyn dial,—
I'r annuw ein Duw a dâl;
Par ei farn am bob rhyw fai,
Llaw dialedd lle dylai.
Ond cafodd fodd i faddau,—
Drwy gur un—gall drugarhau;
Y garw boen, hyd gaerau bedd,
Agorai gell trugaredd;
A'n harch gwir, i lenwi'r wlad
Yn farn am gyfeiliornad,
Yw troi, o ras ter yr Ion,
Galonnau ein gelynion
I droedio wrth ddeddf dradoeth;
Dyn yn ddwl,—Duw Ion yn ddoeth.
Felly yn awr, dan wawr well,
Pob un ant tua'u pabell;
Nef uchod rhoed Naf i chwi,—
Mewn heddwch dychwelwch chwi.”

Tra llefarodd, troell fawrwych
Anian droes yn iawn ei drych;
Y dymer ydoedd dwymyn
Dda'i yn ei lle,—toddai'n llyn.
Gwelent ei drwg—amlwg oedd,
A'u llid—mor fyrbwyll ydoedd;
Ust! tawelynt drwyddynt draw,
O dawelwch, doi wylaw.
'Nawr o'u dwrn yn ara' deg
Parai gwir gwypm i'r garreg;
Trwst y main, a'r ubain rhwydd
Dwys, a dorrai'r distawrwydd.
Yna'r gynulleidfa'n llon
Ddychwelent—(gwedd a chalon
Eto'n awr yn gytun oedd.)
Law yn llaw, lonna lluoedd.

Cyrraedd Ystrad Alun.

Dau gennad gwyn! Wedi gwyl

Hwy gyrchent at eu gorchwyl.
Llafurient â'u holl fwriad,
Dan Iôr i oleuo'r wlad;
A'i dwyn hi dan ordinhad
Da reol, o'i dirywiad;
Dan y gwaith heb lid na gwg,
Trwy erlid, ymlid amlwg,
Doent wrth deithio bro a bryn,
I olwg Ystrad Alun;
Elai'r gwyr, gan eilio'r gân,
Drwy Faelor, oror eirian.
Hwyr hithau ddwyrain weithion,
Llwydai fry ddillad y fron;
Ucheron, {53} uwch ei chaerydd,
A'i t'wysai, pan darfai dydd;
Y lloer, a'i mantell arian,
Ddeuai un modd, yn y man;
Daeth o le i le fel hyn
Y faith yrfa i'w therfyn;
Nawdd Ior, ac arweinydd ddug
Y rhwyddgraff ddau i'r Wyddgrug:
Lletyent mewn lle tawel,
Trigle dêr a mangre mêl;
Lle addas y lluyddwr
Rhufon, oedd yn union wr;
Un crefyddol, dduwiol ddawn,
Doeth, a'i gyfoeth yn gyfiawn;
Iachawdwr, a braich ydoedd,
Ac anadl ei genedl oedd;
I'w ardal deg, ateg oedd,
Llywiawdwr ei llu ydoedd;
Dau noddwr duwinyddiaeth,
Arfolli, noddi a wnaeth;
Eu siarad, am rad yr oedd,
A mesurau'r amseroedd;
Gwael greifion y goelgrefydd,
Rhannau a ffurf yr iawn ffydd;
A bro a'i heddi i barhau,
Uwch annedwydd och'neidiau;
Y duwiol hyfrydol fron
Ddiddenid â'u 'mddiddanion;
Rhufon er hynny'n rhyfedd,
Oedd o ddirgel isel wedd;
Son am loes sy'n aml isod,
A chael rhan uwchlaw y rhod,
Wnae'i fron der, yn nyfnder nod,
Chwyddo o ebwch ddiwybod;
Ei deg rudd, lle gwelwyd gwrid,
A ddeifiodd rhyw ddu ofid;
A dygai'r llef y deigr llaith
I'r golwg, 'nawr ac eilwaith.
'Roedd gwaelod y trallod trwch
I wyr Gallia'n ddirgelwch;
Hwy sylwent mai isel-wan
A dwl, oedd ei briod lân;
Beth fu'r anferth ryferthwy
Ni wyddent—ni holent hwy.

Yna, a'u bron heb un braw,
Hwy wahanent i hunaw;
Pwys y daith, mor faith a fu,
A'i gwasgodd hwynt i gysgu:
Edyn Ion, rhag troion trwch,
A'u mantellynt, mewn t'wllwch.

Yn bur a gwyneb araul,
Cwnnu yr oedd cyn yr haul
Y ddau deg, ddifreg o fryd,
A Rhufon hawddgar hefyd;
Rhodient i wrando'r hedydd
Gydag awel dawel dydd,
Hyd ddeiliog lennydd Alun,
I weld urddas glas y glyn;
Clywent sibrwd y ffrwd ffraeth
Yn dilyn hyd y dalaeth;

Y gro mân ac rhai meini,
Yn hual ei hoewal hi.

Agorir dorau goror y dwyrain,
Yna Aurora sydd yn arwyrain;
Nifwl ni 'merys o flaen ei mirain
Gerbyd llachrawg, a'i meirch bywiawg buain,
Ewybr o gylch y wybr gain—teifl gwrel,
A lliwia argel â'i mantell eurgain.

Yna deffrodd awelon y dyffryn,
Ae' si trwy y dolau'n Ystrad Alun;
Haul drwy y goedwig belydrai gwed'yn,
Bu i Argoed hirell, a brigau terwyn,
D'ai lliw y rhod oll ar hyn—fel porffor,
A goror Maelor fel gwawr aur melyn.

Ar ei hadain, y seingar ehedydd
Fwria'i cherddi i gyfarch y wawr-ddydd;
Deffroai gantorion llon y llwynydd
I bereiddio awelon boreu-ddydd,—
A pher wawd i'w Creawdydd,—trwy'r wiw-nen,
O ferion awen,—am foreu newydd.

Bwrid ar hyn heb eiriach,
Ganiadau o bigau bach;
Eu glwys-gerdd lanwai'r glasgoed,—
Caniadau rhwng cangau'r coed;
Gwna bronfraith dasg ar las-gainc,
Trwsio'i phlu a chanu'i chainc.

Yna llon ganai llinos—i gynnal
Cerdd geinwech yr eos,
Ymorau heb ymaros,
I Geli am noddi'r nos.

A seiniai, pynciau pob pig
I'w Creawdwr caredig;
Nes yr aeth yn mhen ennyd
Yr wybr fan yn gân i gyd.

Esgynnent, troent eu tri
I balawg Fryn y Beili,
I weld y wlad,—ferthwlad fau,—
Rhedai Alun trwy'i dolau
Dyffrynol, breiniol a bras,
Oll yn hardd a llawn urddas;
Duw Celi oedd gwedi gwau
'N gywrain eu dillad gorau;
Deor myrr, neithdar, a mêl,
Yn rhywiog a wnae'r awel;
Aroglai'r manwydd briglas,
Y bau a'i chwrlidau'n las;
A diffwyth lysiau'r dyffryn
Gwlithog, fyrdd, mewn gwyrdd a gwyn.
Ebrwydd, y corn boreubryd
Alwai 'ngwrth y teulu nghyd;
Teulu y castell telaid,
'Nol porthi, mewn gweddi gaid.

Rhufon a yrrai hefyd
Efo'r gweis, trwy'r fro i gyd,
Am neges em enwogion
I weled tir y wlad hon,—
Yr eilient yn ochr Alun
Araeth am gadwraeth dyn;
A'u bod am weini bedydd
Yn ael y dwfr, ganol dydd;
Ag awydd ferth, gwed dai fod
Bawb ynaw â'u babanod;
Mai bechan y Llan oll oedd
I gynnwys amryw gannoedd.

Gofid Rhufon.

Felly aent o'r arfoll hon
Eu tri, i'r gerddi gwyrddion;
Mawl i Dduw roent mewn teml ddail,

Gwedi 'i gwau gyda gwial;
Ei lloriau, â gleiniau glwys,
B'rwydid fel ail Baradwys;
Sonient, with aros yno,
Am och a brad,—am uwch bro,—
Lle na ddel gwyll neu ddolef,—
Am urdd yn Nuw,—am ardd Nef,—
Gardd o oesol radol rîn,
A'i haberoedd yn bur-win.

Rhufon, dan ofid rhyfawr,
Ni ddywedai—ofynnai fawr;
Danghosai' liw, nid gwiw gwad,
Loes erwin uwchlaw siarad;
O'r diwedd, 'nol hir dewi,
Ochenaid, a llygaid lli,
A'i ddagrau, fel rhaffau'n rhydd,
O'i lygaid yn wlawogydd,—
Tan grynnu'i fant yn graen, fo
Gwynai alaeth gan wylo,

“Enwogiawn, mi wn agos
Rhaid i 'null ar hyd y nos
Ddangos fod saeth gaeth, a gwg,
Drwy'r galon draw o'r golwg;
Y ngrudd gref, lle gwingodd graid,
Llychwinodd aml ochenaid;
Grym y groes, a dagrau'm gwraig,
Dyrr wên y diarynaig.
Mynegaf i'm henwogion
Hanes fy mriw—naws fy mron,
A'r achos o'm hir ochi,—
Yr oedd mab iraidd i mi;
Delw i'r holl ardaloedd,—
Eu tegwch a'u harddwch oedd;
'R oedd ei rwydd daclusrwydd clau,
A'i lun nerthol yn wyrthiau;
A gwên hoff lawen a fflwch,
Ireiddiwch ar ei ruddiau.

“Dau lygad ei dad ydoedd,
Un enaid â'i enaid oedd;
Rhyw adyn ei rwydo wnaeth
A'i swynion, i gamsyniaeth,—
Un tonnawg anghytunol
Droes allan, a phagan ffol;
Ac oerodd ei holl gariad
At wir Duw,—at eiriau'i dad;
Hynny fagodd genfigen,
Yr un dydd yn ei fron denn,—
Lle cadd hen genfigen faeth,
Ddylanwodd o elyniaeth,—
Ae'n greulon, anfoddlon fab,
Fu'n wâr anwyl ireiddfab;
Y diwedd oedd—gadodd ef
Mewn gwg,—huddwg ei haddef,
Gan addaw dod, diwrnod du,
A dialedd i'w deulu;
Gwauai y dwrn,—rhegai' dad,
O'm Duw! fath ymadawiad!
Er gwae im', rhwygai ymaith—
Na wŷr ond Ion ran o'i daith;
Nis gallaf, dan drymaf dro,
Ond trist ruddfanu trosto.

“O'r diwrnod bu'r du ornwaith,
Ni chenaus, ni cherddais chwaith,—
Picellau drwg ofnau gant,
Y fron wirion fraenarant:
Na welir hwn, wylo'r wyf,—
Ac wylo rhag ofn gwelwyf
Etifedd gwae! tyfodd gwŷn
Diyarbed i'm herbyn;
Funud ni phrisiaf einioes,—
Aeth yn faich holl ddwthwn f'oes!
O Angeu! torra f'ingedd,

'Rwy'n barod, barod, i'm bedd.'

Eto y toddai natur
Yn ddagrau fel perlau pur;
Delwai, mudanai'r dynion,
Gyda'u brawd gwaedai eu bron;
Pwyntient fys at lys hael Iôn—
Lle o allu ellyllon.

Synnent, ac edrychent dro,
Eilwaith cymysgent wylo:
Addysgid y ddau esgob
Felly'n null cyfeillion Iob;
I ganfod fod llym gwynfawr
Bwysau ei ofidiau'n fawr.

Y Gynulleidfa.

Ar hyn d'ai gwas addas wedd,
Mynegai mewn mwyn agwedd,
Fod nifer, yr amser hyn,
Ar ddolau iraidd Alun;
A'u disgwyliad dwys gwiwlon
Am glywed clau eiriau'r Iôn.

Sychu oedd raid y llygaid llaith,
O fwriad at lafurwaith:
O'r deildy tua'r doldir
Yr elent hwy trwy lawnt hir;
A gwelent wâr, liwgar lu,
Yn gannoedd yno'n gwenu.
O ddisgwyl y ddau esgawb,
A gwyneb pur gwenai pawb,
O oedran diniweidrwydd,
Y'mlaen, hyd i saith-deg mlwydd;
Rhai ieuainc, mewn chwidr awydd
Yn chwarae ar geinciau gwydd;
Arafaidd d'ai'r gwryfyn,
Yn weddaidd, llariaidd a llon;
Oeswyr, a phwys ar eu ffyn,
Hulient dorelennydd Alun;
Doethaidd eu dull i'r dwthwn,
Eistedd wnai'r gwragedd yn grwn;
Pob mam lân a'i baban bach,
Ryw hoenus,—a rhai henach,
A geisient gael eu gosod
Dan sancteiddiol nefol nôd;
'Nawr mewn trefn, tu cefn i'r cylch,
Gan ymgau'n gain o amgylch,
Y deuai holl wrandawyr
Y graslon enwogion wyr.

Ar ddeulin yr addolynt
Yr Oen hoeliwyd, gablwyd gynt;
A Bleiddan, drwy fwynlan fodd,
Ar Dduw a hir weddiodd;
Eiddunodd newydd anian,
A mawr les, i Gymru lân;
I beri hedd, nes byrhau
Ochain hon a'i chynhennau,—
A throi i'r wir athrawiaeth
Rai'n ol, ar gyfeiliorn aeth;

Ac yna, na cha'i Morganiaeth,—na gwenwyn
O geuneint Derwyddiaeth,
Fwrw'u dilyf ar dalaeth,
Yn hwy'n lle manna a llaeth.

Bedyddio wnaent—(byd dd'ai'n wyn)
Wyr mewn oed,—rhai mân wedyn;
Yna'r sant 'nol gweini'r swydd
Ystyriol—mewn distawrwydd,
Yn ei wisgoedd wnai esgyn
I ochr llethrawg, frithawg fryn;
Ac eurmyg lleuai Garmon,
A'i dafod aur, eiriau'r Ion;
Gwrthbrofi, dynodi wnaeth
Amryw gynneiddf Morganiaeth;

Mor ffraeth ei araeth euraidd,—
Enaid a grym hyd y gwraidd;
Y llu ddaeth i gablu gwyr,
Hwy ddeuent yn weddiwyr:
Trwy'r gair llym y troir gerllaw
Annuwiolion i wylaw;
Pan felltenai Sinai serth
I gydwybod,—gwaed aberth
Wna'i fellten a fa'i wylltaf
Ddiffodd, yn hedd ffydd yn Naf;
Agorai wefus gwrel,
A'i fant a ddyferai fêl;
Drwy lawn gainc, darluniai gur
Tad a Cheidwad pechadur,—
Yr iawn a ro'es, drwy loes lem,
Croeshoeliad Oen Caersalem;
Ban dug, trwy boenau dygyn,
Fodd i Dduw faddeu i ddyn;—
Ei araeth gref am wyrth gras
Wnai un oer bron yn eirias.

Dychryn y ffoaduriaid.

Ynghanol y dduwiol ddysg,
Clywid cynnwrf, twrf terfysg;
Llefau galar gyda'r gwynt,
Sitwyr yn neshau atynt!
Ar hyn, dyna ofngar haid
O derydd ffoaduriaid,—
Lu gwael o liw—ac ael wleb,
A gwannaidd oedd pob gwyneb:
"Daeth," dyhenent d'wedent hwy,
"Awr hyf warth a rhyferthwy;
Mae Saison, anunion wyr,
A brathawg lu y Brithwyr,
A'u miloedd dros dir Maelawr,—
Gwelsom fin y fyddin fawr!
Temlau a thai llosgai'r llu—
Nen a magwyr sy'n mygu;
Ha! erlidiant ar ledol
Y rhai ddaeth yn awr i'r ddôl;
Clywch dôn anhirion eu nâd,
Ffown, ffown! am amddiffyniad."

Y gair, fel loes gwefrawl, a
Darfodd pob rhan o'r dyrfa;
A chwerw nod dychryniadau
Oedd yn eu gwedd hwy yn gwau;
Mewn ofnawl, ddidawl ddadwrdd,
Mynnent ymroi, ffoi i ffwrdd;
Ond Rhufon, drwy fwynlon fodd,
Un teilwng, a'u hataliodd—
Nad oedd y fyddin, erwin hynt,
Eto yn agos atynt:
Enynnodd aidd hen anian
Y milwr dewr, mal ar dân.

Milwr a Sant.

"Rhyfel!" dolefaï Rhufon,
Ag araul fryd gwrol fron,
"Heddyw fy hen gleddyf hir,
I ddwyn aeth a ddyncethir;
Gwnaf wyrthiau trwy gnif erthwch—
Gwnaf weld eu llu'n llyfu'r llwch;
Codwn, arfogwn fagad
O wrol wych wyr y wlad;
A'm milwyr a'u hymwelant,
Pob gwr fydd gonc'rwr ar gant;
Wyf Rufon, er f'oer ofid,
A ddeil arf drwy dduwiol lid;
Terwyniant ein tariannau
Ni ddeil bron y gâlon gau;
Heno o'u balch lu, ni bydd
Un i leidio'n haelwydydd;
Trwy ryfel dihefelydd,

Ac enw Duw,—cawn y dydd!
Y'mlaen! pur yw'n hantur hon!"
"Arafa, danbaid Rufon!"
Eb Garmon,—“Er pob gormes
Yn fur prawf, yn farrau pres,
Mae telid gadernid Iôn
Is awyr o gylch Seion;
Ei phen a'i hamddiffynydd
Yw'r Duw sy'n Greawdwr dydd;
Ein hiawn bwys yn hyn, O bid
Ar Dduw a'i wir addewid;
A Duw a'n cyfyd ni, cofiwn,
Y diwedd o'r hadledd hwn;
“Y Duw a barai fod aberoedd
O sawr diliau, mewn cras ardaloedd,
I gynnal ei blant gannoedd,—â dwfr fal
Gwawr y grisial o graig yr oesoedd,
Ac a lywiau Iago a'i luoedd
Mawr a difraw, rhwng muriau dyfroedd,—
A Pharaoh a'i anhoff yrroedd—wnai gau
O fewn dorau y gorddyfnderoedd;
Y Duw hwnnw gyfyd hinon
Awyr dawel, o oriau duon,
Dilai gwared ei deulu gwirion
Rhag galanas a rhwyg gelynion;
Y Duw fu'n blaid Gedeon, rwystra i yrr
Yr un o'r Brithwyr wanu'r Brython.”

Trwy galon Rhufon yr aeth
Cywir donau crediniaeth;
Distawodd, lleddfodd y llu,
Eu gwelw wawr a'u galaru;
Heb ddal ynni, boddlonynt
I weision Ior hwylio'r hynt.

Hwy roddent gyfarwyddyd
Am hwyl y gorchwyl i gyd.

Ag ysgafn droed i goed gwydd,
Encilient dan y celydd;
Rhufon hoff, er mwyn cloff, claf,
Anwylaidd, safai'n olaf;
A thawel gynorthwyai
Y gweinion efryddion rai.

Yn ol dod dan gysgod gwig
I gyd, ar lawr y goedwig,
Plygent lin, ac â min mel
Yn ddwys mewn gweddi isel:
Yn ysbaid hyn, os bai twrf,
Ochenaidd lesg, a chynnwrf,—
Codai Garmon lon ei law,
Agwedd Ust! ac oedd ddistaw.

Er gwersi, er gweddi'r gwyr,
Er teg osteg, ac ystyr,—
Gwael agwedd y golygon
Ddwedai fraw y ddiwad fron.

Ar hyn, dyna'n syn neshau
Athrist dwrf, a thwrst arfau;
Lwyrnych estronawl oernad,
Croch gri, a gwaeddi,—“I'r gât”;—
Yr waedd oedd yn arwyddaw
Fod gâlôn llymion gerllaw:

Yna y treigl swm eu traed,
Yn frau o fewn cyrrau'r coed,—
Lleng a'u gwich am ollwng gwaed
Gwyr o ryw hawddgara 'rioed.

Adeg alarus ydoedd,
Ac awr heb ei thebyg oedd;
Awr gerth, na ddileir o go',
Ac awr calonnau'n curo;
Y goch ffrw aeth a'i lliw'n llwyd,
Dewr wedd ae'n orsedd arswyd.

Trwy'r ddôl y gelynol lu,
Groch anwar, wnai grechwenu,
Er dannod gwarth Prydeinwyr,—
(Rhy fuan gogan y gwyr.)

Gan ymnerth, ac un amnaid,
Yn llu yn awr, oll 'e naid
Y Brython,—yn llon eu llef,
Unllais, ac adlais cydlef,
Germain oedd, rho'i Garmon air,
Addasol ei ddewisair,—

Haleluia! Haleluia! lawen,
Ar y gair, ebrwydd y rhwygai'r wybren,
Creigiau,—a chwedi pob crug a choeden
Yn y dyspeidiad oedd yn d'aspeden;
A'r engyl yn yr angen—yn uno,—
A gawriai yno holl gôr y wiw-nen.

Chwai hyrddiwyd gâlôn chwerw-ddull,
Dychrynnent, ffoent mewn ffull.

“Frithwyr ffel! beth yw'r helynt?
Dewch i gâd,—ymffrostiech gynt!
Hai! ffwrdd! codwch waewffyn,
Hwi'n golofn,—dacw'n gelyn!
Ymrestrwch,—troediwch mewn trefn,
Och! enrhaith! beth yw'ch anrhefn?”

Unwaith ni wrendy'r annuw,
I'w dilyn mae dychryn Duw;
Eu heirf serth, yn y twrf sydd,
Wana galon eu gilydd;—
Astalch i astalch estyn,
A chledd sydd yng ngledd y'nglŷn.

Clywai Alun destun da,
Alawon Haleluia;
A chiliodd dros ei cheulan,—
Hi droes lif ar draws y lan;
A mynnent hwy, er maint hon,
Yn eu braw, rwyfaw'r afon:
I dawch Alun dychwelynt,—
Aeth hon fel y Gison gynt:
A mawr dwrdd—ym merw'r donn,
Cell agerdd cylla eigion:
Gwenodd Alun, gwyn ddiluw,
Gael yno dorf gâlôn Duw;
Llafuriodd y llifeiriaint,
Gyda si, i gadw y saint;
Sugnai'r llyn y gelyn gau,
Gwingodd dan grafanc Angau.

O foreu dwl, ar fyrr daeth
Gwawr deg o waredigaeth;
'Nawr gwelai'r Cymry'r gâlôn,
Yn soddi is dyli'r donn;
Gan wau yn dyrrau dirif,
A swm eu llais yn y llif;
Llifeiriant a i holl farrau,
Tonnau certh, arnynt yn cau:—
Nodent nad oedd mewn adwy,
Glan, na maes, un gelyn mwy;
Prin coelient—safent yn syn—
Ddolef eu ciaidd elyn.

Dyferai eu clodforedd,
Drwy'r glynnau yn hymnau heddd;
Ac yn eu plith canai plant,
Swm melus atsain moliant.

Yna'r saint mewn eres hwyl
A anerchent,—iawn orchwyl—
Araf lef i'r dyrfa lân,
Dorrent ollyngdawd eirian.

“Ein Ner, mewn blinder, fu'n blaid
I'w wâr union wirioniaid;

Duw'n y blwng wrandawai'n bloedd,—
Boddai yna'r byddinoedd.

“Eurawg olwynion hen Ragluniaeth,
Barai'r dolydd, y wybr a'r dalaeth,
I wyrthiol adsain germain gaeth,—Alun
Foddai y gelyn,—caem fuddugoliaeth.

“Duw Ner roes yr hoewder hwn,
I'n Duw eilchwaith diolchwn;
Llawforwyn fu'r llifeiriant,
Gyda bloedd i gadw ei blant.

“Iolwn na byddo'i wiwlwys—ogoned,
Ac enaint Paradwys,
Gilio oddiar Gwalia ddwys,
Na'u aroglau o'r Eglwys.

“Duw'r hedd fo'n eich harwedd chwi,
Drwy genedl lawn drygioni;
A chwedi oes heb loes lem,
Noswyliaw boch yn Salem.”

Hwy wahanent ar hynny,
Heb wybod ofn,—bawb i'w dŷ;
A'r lleddf ddau genadwr llon
Draw hefyd i dŷ Rhufon.

Ac ar hwyl deg, yr ail dydd,
Dwyrëent mewn dir awydd,
I rodio i lawr at ffrwd lân,
Glennydd lle bu galanas:
'Nawr aber, fel arferol,
Ydoedd hi ar hyd y ddol;
Ciliai'r dylif, clwy'r dylaith,
A'i dwrf oll, pan darfu'i waith;
Dai'r ardal yn dir irdeg,
Lle berwai tonn, ddai'n llwybr teg:
Gwelent hwy, wrth geulan tonn,
Gelanedd eu gelynion;
Yn dyrrau, 'n rhesau di ri,
O'r Belan hyd i'r Beili.

Gwelai Rhufon dirionwawr,
Ar hyn, ryw lencyn ar lawr.
Ei ddull, ei wedd, a'i ddillad,
A'i lun, oedd fel un o'r wlad.
Craffai arnaw—draw fe drodd,
A lliw egwan llewygodd;
Oherwydd y tramgwydd trwm
A ddyrysodd ei reswm;
Drwy'i galon a'i dirgeloedd,
Safai bâr,—can's ei fab oedd;
Ei deulu o'i ddeutu ddaeth,
Gan weled ei ddygn alaeth;
Rhoent uwch ei fab, drygfab,—dro
Eu ced olaf,—cyd-wylo;
Uchel oernych alarnad
Wrth ei ddwyn fry i dŷ i dad:
(Gwyddent mai dilyn geu-dduw,
A dal dig, a gadael Duw,—
Trwy lithiol rai ffol, di-ffydd,
Wnai ei ddwyn i'w ddienydd!)

Hwy ddeallent, modd hollol,
A ddwedai, 'nawr, am ddod'n ol,
Ryw ddiwrnod, a dyrnod du
Dialedd ar ei deulu.

Iddo fe gwnaed angladd fawr,
Hir wylwyd ar ei elawr:
(Mae natur bur ei bwriad
A maith ddeddf mewn mam a thad;)
Er brad, er braenaru bron
Ei rieni, rai union,—
Eto wylodd y teulu,
Am y mab, fel cynfab cu;
Ni pheidient am anffodion

A thranc gwas ieuanc, a son;
Ac a pharch gwnaent er cofthau,
Hel peraidd, lwysaidd lysiau;
Hel mwysion freila maesydd,
Hel blodau ar gangau'r gwŷdd;
Hel mawr ar lili mirain,
Hel y rhos ar ol y rhain;
Hel llawryf digoll irwedd,
Hela'r bawm i hulio'r bedd:
A dagrau rhwydd, sicrwydd serch,
Mwydent, llenwent y llannerch.

Garmon, er cof mwynlon mad,
Gweddus, o'r holl ddigwyddiad,
O fewn y tir roes faen teg,
A geiriau ar y garreg;—

“Daw hinon, er llid annuw,
I'r dyn doeth a gredo'n Duw;
A dylaeth, barn, a dolef,
I'r adyn fo'n erbyn Nef.”

ABERIW.

AT MR. E. PARRY.

Berriew, Chwef. 10, 1824.

ANWYL GYFAILL,

Mae ymdeithydd yn myned heibio i Lerpwl, a rhesymol i mi achub y cyfleustra i ysgrifenu at un a brofodd ei gyfeilgarwch drwy amryfal dirionderau. Chwi a welwch wrth ddyddiad y llythyr fy mod yn mhell o fangre fy mam. Daethum yma y 30ain o'r mis diweddaf, a chefais Mr. Richards a'r holl deulu yn foneddigaidd, tirion, a charedig. Mae yma dri o wyr ieuainc yn cael eu parotoi i'r Brif Ysgol,—ni welais dri erioed mor wahanol eu hansawdd a'u tymherau i'w gilydd; ond trefnodd y Rhagluniaeth y cefais fy mwrw arni o'r bru, a'r hon a drefnodd fy ngherddediad hyd yma, iddynt fy nerbyn gyfeilgarwch agos yr wythnos gyntaf o'm hainfodiad yn eu plith. Fel hyn, y mae'r coelbren wedi syrthio i mi mewn lle hyfryd o ran teulu i gyfaneddu yn eu plith, ac am gyfeilgarwch sydd fel olew i olwynion fy natur, gallaf ddywedyd “dyma etifeddiaeth deg.” Pe byddai lle yn y byd a barai i mi anghofio yr aelwyd y dysgais ymgropian hyd-ddi gyntaf—y llanerchau a fuont olygfeydd fy chwareuyddiaethau plentynaid,—neu i laesu fy hiraeth am gyfeillion lliosog a hawddgar,—ac yn bennaf oll am fy nhirionaf dad a mam, dyma'r fan debycaf oll. Ond nid hawdd datod rhwymau a gydiwyd gan serch, ac a gysegrwyd gan ffyddlondeb. Felly rhaid addef yr hyn y byddai yn ffolineb ei wadu—fod fy meddwl yn ehedfan yn fynych ar adenydd dychymyg o lannau Hafren i ochrau Alun, Clwyd, Dyfrdwy, a Mersey, lle y profais gyfeilgarwch oedd yn fêl i'm genau ac yn iechyd i'm hesgyrn. Os gwelwch chwi neb o'r hen fechgyn a ymffrostiant fod eu henwau y'nghoflyfr Gwalia,—dywedwch fy mod yn cofio atynt ac yn dymuno yn dda iddynt.

Am danaf fi, er yn rhy isel mewn sefyllfa i allu gorchymyn, ac yn rhy wael mewn dawn i allu teilyngu sylw, eto fy ymdrech pennaf hyd angeu (ni'm cyhuddir o ymffrost wrth wenthur y broffes) fy ymdrech, yn nesaf i foddloni fy Nghreawdwr, a meithrin cydwybod dawel, a fydd trefnu fy ngherddediad fel na wnelo fy ngwlad wrido o'm harddel.

IFOR CERI.

TO THE REV. C. B. CLOUGH, MOLD.

Berriew, March 1st, 1824.

REV. AND DEAR SIR,

In Mr. Richards, my expectations have been more than realised; and I cannot sufficiently express my thanks to the Committee for selecting such a person to be my tutor. His kind solicitude for my domestic comforts, is as unremitting as his attention to my advancement in literary pursuits. His religion is so far removed from wild enthusiasm as it is from cold and affected formality. The chaste and pious manner in which he offers up the family devotions, with his Christian precepts and example, have made so deep an impression upon my mind, as will prove, I trust, to my spiritual advantage.

EMYN PASG.

Wele'r Ceidwad gaed yn Meth'lem
Acw'n marw dan ei loes,
A gwryfon tyner Salem
'N gwlychu â dagrau droed ei groes:
Caua'r haul ei lygaid llachar

Rhag gweld clwyfo'r Sanct ei hun;
Ei ruddfanau sigla'r ddaear,
Cryna pob peth ond y dyn.
Deuwch saint, gollyngwch ddagrau
Uwch trychineb Calfari,
Dros yr hwn a roes ochneidiau
Dan y baich haeddasoeh chwi;
Drosoch hidlodd ddafnau heilltion
Is arteithiau gŵg y nen,
Nid o ddwfr, ond gwaed ei galon,
Yna trengodd ar y pren.

Dyma dristwch heb ei debyg,
Gras a chariad pur y'nglŷn,
Duw'r gogoniant dan y dirmyg,
Ac yn marw i brynu dyn:
Ond wele achos llawenychu!
Testun cân dragwyddel fydd,—
Iesu'r Ceidwad sy'n dadebru
'N gynnar ar y trydydd dydd.

Gwelwch fel mae'n concro angau!
Syllwch ar ei ddwyfol wedd!
Grym ei fraich, a gair ei enau,
Sydd yn dryllio bolltau'r bedd:
Llengau'r nef, anrhaethol nifer,
A'i gwarchodant tua'i wlad—
Rhwygai cerddi yr ehangder,
Cerddi croeso i lys ei Dad.

Bellach, saint, eich dagrau sychwch,
T'rewch y gu dragwyddol gân,
C'weiriwch eich telynau, cenwch
Wyrthiau eich Gwaredwr glân:
Dwedwch iddo fathru'r gelyn,
'Speilio lluoedd certh di ri',
T'wyso angau du mewn cadwyn,
A chysegro'r bedd i chwi.

Bloeddiwch, 'Ryfedd Frenin Sion,
Doed y ddaear dan dy iau!
Ganwyd ti'n Wareddydd dynion,
Wyt yn gadarn i iachau.'
Gofynnwch wedyn i'r anghenfil,
'Ple mae'th golyn oer yn awr?
Fedd ymfrostgar, ddu dy grombil,
P'le mae'th fuddugoliaeth fawr?'

ENGLYN I ANNERCH MISS COTTON, OFYDDES.

Eisteddfod y Trallwm, 1824.

Gwalia lwyd lonwyd eleni,—Awen
Flodeua fel lili;
Bron bun yw ei gardd hardd hi,—
Hil anwyl hael Lyweni.

"A PHA LE Y MAE." Job xiv. 10.

"Ya le y mae! ow gwae! ai gwir?
Nad yn ei dir, o dan y dail
A eiliai gynt drwy helyg îr?—
Nid uwch ei fir—gan d'wchu ei fail;—
Ni wela wych olygfa'r waen,
Ni swnia'i droed yn nawnsiau'r dref,
Gwych yw'r olygfa fel o'r blaen,
A dawnsia myrdd, *ond ple mae ef?*

Ei ddiddan Elia ddyddiau'n ol
Dywysai i'r ddol ar hwyrol hynt;
Wrth ochrau'r llyn o'r dyffryn dardd
A gwaelod gardd fe'i gwelwyd gynt;
Is gwê o fill ni wasga'r fun,
(Ei ardd a wnaeth fel gerddi nef
Ag urdd o ros). Mae'r gerddi'r un,
Ac Elia'r un—*P le gwelir ef?*

Fel nablau'r côr rhoe'i gerddor gân,
O'i deithi glân, nid aeth yn gloff;
Rhaiadrau, llynnau, gwyrthiau gant,
Oddeutu ei nant sydd eto'n hoff
O'i dŷ—mur hwn nid yw mor hardd;
Adwyau geir ar hyd ei gae,
A gwywa'n rhês eginau'r ardd,
Ymhola mill—*Y mh'le mae ef?*

Mae beddfan newydd yn y Llan,
Yr aelwyd ddengys gadair wag;
Ac wrth y bedd, a'r wedd yn wan
Doluriau serch rhyw ferch a fâg;
A'r ddol, lle bu yn gadu'r gwynt,
Ni wela'i lun, ni chlywa'i lef,
Bonllefau rhai a garai gynt,
Pa le maent hwy? *Pa le mae ef?*

GWAHODDEDIGION EISTEDDFOD TRALLWM, 1824.

Englynion difyfyfyr i'r Arglwyddes Clive a'i phlant.

Enynnwn i uniawn annerch—talaeth,
Am roi telaid eurferch
Montrose, mewn rhwymyn traserch
I Bowys hen—man gwîb serch.

Yr ysgeill yn ol hir wasgar—can-oes
I'r cenin sy'n gymar;
Tan wên cyd-dyfant yn wâr
Eu deuodd yn fri daear.

Mwy yn yr hîl, y mae'n rhaid—y rhennir
Holl rinwedd y ddwy-blaidd;
Trwy eu bron, yn hylon, naid
Hen nwyfau eu hynafiaid.

Os daw rhyw haid, i rwystro hedd—ein tir,—
Nes troi ein tai'n garnedd,
Yn y ddiras gynddaredd,
Hil Clive fydd yn dal y cledd.

Ond i hedd a dyhuddiant,—i godi
Dysgeidiaeth, tueddant,
Awenyddion a noddant,
Eu hiaith hen, a cherdd, a thant.

Trwy'u diwrnod tyrred arnynt—bob undeb
A bendith—llwydd iddynt;
Anwylaidd gynnal wnelynt
Dud a gwaed hen dadau gynt.

CAROLINE.

*Llinellau ar farwolaeth Miss Hughes, merch y
Parch. M. Hughes, Periglor Llanwyddelan,
Trefaldwyn.*

Ceisiais dybio'r son yn anwir,
Syrthio Caroline i lawr,
Ac nad allai seren eglur,
Fachlud wedi t'wnnu ond awr:
Ond y glul ar gefn yr awel,
Sw'n y fron yn hollti'n ddwy,
Adsain och sy'n gwaeddi'n uchel,
Ofer anghrediniaeth mwy.

Hir y cofir y diwrnod
A esgorodd ar y gwae,
Pan y rhedai i gyfarfod
Cyfeillesau i odrau'r cae;
Blaenai'r dyrfa tu a'r annedd,
Crechwen ar ei hwyneb pryd;
Ychydig dybiai mai i'w hangladd,
'Roedd yn gwadd y cwmni ynghyd.

Gyd âg eistedd, deuai angau
'N nesu ati gam a cham,

Ac ni throi oddiar ei siwrnai,
Er gwaedd mil, er gweddi mam;
Delwai'r tylwyth gan yr alaeth,
Gwnaent ei gwely fel yn lli',
Hithau'n dawel dan yr artaith,
Pawb och'neidient ond y hi.

Pan oedd oed yn rhoddi coron
Aeddfed ar ei dull a'i dawn;
Myrrh ac olew yr Ysgolion,
Wedi'i pherarogli'n iawn;
Pob disgwyliad gwych yn agor,
Hithau'n ddedwydd yn ei rhan,
Cadd ei galw ar ei helor,—
Y swyn a dorrwyd yn y fan.

Treigliad ei golygon llachar,
Ei throediad ysgafn ar y ddol,
Corff ac enaid oll yn hawddgar,
Dynnai'r galar ar ei hol;
Ond mae tryliw rhos a lili,
Wedi gwelwi ar ei gwedd,
'N awr ni ddena serch cwmpeini
Mwy na phryfed mân y bedd.

Ffarwel iddi! boed i'r ywen
Gadw llyisiau'i bedd yn llon,
A gorwedded y dywarchen
Werdd, yn ysgafn ar ei bron
Sycher dagrau ei rhieni,—
Ior y Nef i'w harwain hwy,
Nes y cwrddant ryw foreuddydd,
Na raid iddynt 'mado mwy.

CYFIEITHIAD O FEDD-ARGRAFF SEISNIG.

Ty llong gadd lan, lle'r oedd fy nghais,—
O'r tonnau treiddiais trwy;
Er dryllio'm hwyl gan lawer gwynt,
Na chlywir monynt mwy.

O gernau'r 'storm ces ddod yn rhydd,
Daeth angau'n llywydd llon,
A pharodd im' mewn gobraith glân,
Angori'n 'r hafan hon.

BUGEILGERDD.

Ar dôn "*Kate Kearney*."

DEWI.

A welaist, a 'dwaenaist ti Doli,
Sy' a'i defaid ar ochr Eryri?
Ei llygad byw llon
Wnaeth friw ar fy mron,
Melusach na'r diliau yw Doli.

HYWEL.

O do, mi adwaenwn i Doli,—
Mae'i bwthyn wrth droed yr Eryri;
'D oes tafod na dawn
All adrodd yn iawn
Mor hawddgar a dengar yw Doli.

Un dyner, un dawel yw Doli,—
Mae'n harddach—mae'n lanach na'r lili;
'Does enw îs nen
A swnia'n ddisen
Mor ber gyda'r delyn a Doli.

DEWI

Ow! ow! nid yw'n dyner wrth Dewi,—
'Does meinir yn delio fel Doli,
Er ymbil â hi
A'm llygad yn lli,

Parhau yu gildynus mae Doli.

Ymdrechais wneyd popeth i'w boddio,
Mi gesglais ei geifr idd eu godro,
Dan obaith yn llwyr
Y cawn yn yr hwyr
Gusanu yn dalu gan Doli.

Mae'i mhywtes mor wynned a'r eira,—
Mae'i chalon mor oered mi wiria';
Ar f' elor ar fyrr
Fy nghariad a'n ngyrr—
O oered a deled yw Doli!

Tri pheth a dim mwy wy'n ddymuno,—
Pob bendith i Doli lle delo,—
Cael gweled ei gwedd
Nes myned i'm medd,—
A marw yn nwylo fy Noli.

YR HEN AMSER GYNT.

Bu'n hoff i mi wrth deithio 'mhell
Gael croesaw ar fy hynt;
Mil hoffach yw cael "henffych well"
Gan un fu'n gyfaill gynt.

Er mwyn yr amser gynt, fy ffrynd,
Yr hen amser gynt;
Cawn wydriad bach cyn canu'n iach,
Er mwyn yr amser gynt.

Yn chwareu buom lawer tro,
A'n pennau yn y gwynt;
A phleser mawr yw cadw co
O'r hyfryd amser gynt.

Er digwyddiadau fwy na rhi',—
Er gwario llawer punt;
Er llawer coll, ni chollais i
Mo'r cof o'r amser gynt.
Tra cura calon yn fy mron,
Drwy groes neu hylon hynt,
Rhed ffrydiau serch drwy'r fynwes hon
Wrth gofio'r amser gynt.



YR AMSER GYNT.

" Rhed ffrydiau serch drwy'r fynwes hon
Wrth gofio'r amser gynt."

I —

Ty anwyl ferch, delw'm serch, clyw annerch clwy enaid,
Tro'ist yn ddu'r cariad cu, a chanu'n ochenaid;
A oedd un llaw drwy'r dref draw i nharaw'n anhirion?

A oedd yn mhleth, at y peth, ddwrn yr eneth union?
Yn wir dy wŷg dagrau ddwg i'r golwg o'r galon,
Oni chaf hedd af i'm bedd i orwedd yn wirion.

P'le mae'r gred, gofus ged, adduned oedd anwyl?
Ai si a siom yr amod drom unasom ryw noswyl?
P'le mae'r drem, fel gwawr gem, a luniem dan lwynydd?
Torrai'n syn swyn y llyn, y delyn, a'r dolydd:
Yn iach i'th wedd, mi wela 'medd, wan agwedd yn agor;
Dywed di, fy mun, i mi, a wyli ar fy elor?

Pan weli sail y bedd, a'r dail ar adail mor hoewdeg,
Ac uwch y tir, ysgrif hir, o'r gwir ar y garreg,—
Mai d'achos di, greulon gri, fu'n gwelwi'r fau galon;
Ai dyma'r pryd, daw gynta'i gyd, iaith hyfryd o'th ddwyfron?
Gorchwyl gwan rhoi llef drwy'r llan, troi'r fan yn afonydd,
Rhy hwyr serch felly, ferch, i'm llannerch bydd llonydd.

GADAEI RHIW.

Gofid dwys a wasga 'nghalon,
Adaef Rhiw a'i glannau gleision,
Dolau hardd lle chwardda'r meillion,
 A chysuron fyrdd:
Gadael mangre englyn,
Diliau mel, a'r delyn;
Gadael cân gynhenid lân,
Eu cael a'u gadael gwedyn;
Gadael man na sangodd achwyn;
Ond er gadael ceinciau'i gorllwyn,—
Yng ngauaf oes fe saif Trefaldwyn,
 Ar fy nghof yn wyrdd.

Trwm, rhy drwn, rhoi ymadawiad
A bro na welir cuwch ar lygad,
Na diffyg ar ei haul na'i lleuad,
 I ddylu blodau fyrdd;
Troi i sych Rhydychen,
O Bowys, hen bau Awen,
Lletty hedd, a bwrdd y wledd,
Lle'r adsain bryn â chrechwen:
Gadael llon athrawon gwiwfwyn
Och! ni wn pa fodd i gychwyn. &c.

Try yr ymadawiad ysol,
Nwyf i loesau anfelusol,
Ond pa'm beiaf rhagluninethol
 Anorffennol ffyrdd
Dyma law 'madawiad,
A'r llall mi sychaf lygad;
Mae'r fen gerllaw, i'm cludo draw,—
Ofer—ofer siarad;
Yn iach bob dengar gwm a chlogwyn,—
Yn iach, yn iach, gyfeillion addfwyn. &c.

RHYDYCHEN.

AT GYFAILL.

Athrofa'r Iesu, Rhydychen,
Rhagfyr 19, 1824.

Gobeithio eich bod yn myned y'mlaen gyda Lladin. Ni wyddoch pa beth a all esgor. Gallaf addaw y cewch fwy o bleser na thrafferth yn dysgu; a gwn na byddai yn boen i'ch meddwl llym chwi dreiddio iddi ar amnaid. Mi a ddatguddiaf i chwi fy amcan wrth eich cynghori fel hyn. Os gallwch, trwy eich llafur eich hun, ymhyfforddi yn yr ieithoedd dysgedig,—os addunedwch beidio croesi trothwy tafarn yn y Wyddgrug,—os peidiwch a chyfeillachu a neb ond dynion parchus, a phrin â rhai'ny,—os byddwch ddyfal yn eich sefyllfa,—os gyrrwch ambell i ddernyn i'r Eisteddfodau, er mwyn tynnu sylw,—os ymddygwch bob amser yn syml, cyson, a gostyngedig,—ac os, gyda hyn oll, y llwyddwch i dynnu cyfeillgarwch y goreu o ddynion, Mr. Clough—meddyliwn na byddai yn anhawdd nac yn dreulfawr i chwi gael trwydded yma. Y mae eich synwyr yn ormod i adeiladu dim ar hyn, nac i yngan gair yn ei gylch i gyfaill eich mynwes. Pa beth a all cardotyn fel fi ei addaw?

Byddai yn dda gennyf pe rhoddech ddiodyd cadarn na sangech ar lawr unrhyw dafarndy yn y Wyddgrug byth. Y mae fy mynwes i yn gwaedu heddyw gan y clwyfau a dderbyniais ynddynt. Ni welais gyfaill da o fewn eu muriau erioed, ac ni welais un niweidiol iawn y tu allan. Ni wna

ymddygiad isel a buchedd rinweddus a duwiol eich amddifadu o unrhyw bleser teilwng o'r enw: yn hytrach gwna i'ch cwpan redeg trosodd—addurna chwi ger bron eich gwlad—a thywysa chwi at ffynnon a arllwys ei dwfr pan y bydd Alyn, a Helicon hefyd, wedi sychu. Hyderaf na ddigiwch am yr hyfder a gymerais. Gwiriaf i chwi iddynt ddylifo oddiar deimlad mor bur ag a gurodd erioed ym mynwes tad. Gwn eich bod yn agored i lawer o demtasiynau, y rhai a gynyddant po fwyaf y deloch i sylw y byd. Gwn, hefyd, fod eich cysur amserol a thragwyddol yn ymddibynnu ar eu gorchfygu. Gwyddoch chwithau fod rhan fawr o fy nghysur innau ynglyn wrthyhych fel cyfaill fy ieuenctyd. Bellach, ai gormod im' am unwaith ddringo Ebal? Do, fy nghyfaill, cefais i wybod trwy brofiad trist fod deniadau cyfeddach yn llymach na saethau cawr, ac yn chwerwach na marwor meryw. Mi syrthiais i ymhlith y lladdedigion. Tybiodd fy nghyfeillion ddarfod am danaf byth, a gadawsent fi i'm tynged. Ond, trwy y moddion rhyfeddaf, dywedodd y Gwr y rhyfelais yn ei erbyn, "yn dy waed bydd fyw." Cefais yn barod lawer prawf o'i diriondeb; ac nid ydwyf yn cwbl anobeithio cael, o radd i radd, fy nerbyn i'w fyddin ac i gludo ei faner. Hyd yn hyn, y mae fy mriwiau yn rhwystro imi gydio mewn arf; ac yr ydwyf yn treulio fy oes gan y mwyaf wrth odreu Sion; ac weithiau, wrth godi'm llaw at ddail y pren sydd yn iachau'r cenedloedd, dymunwn amneidio â'r llall at fy nghyfeillion, i beri iddynt ochel y llannerch lle y derbyniais i y saeth a lynnodd yn fy nghalon.

COLLEGE LIFE

TO THE REV. C. B. CLOUGH, MOLD.

*Jesus College, Oxford,
December 16th, 1824.*

Upon the whole, I find College life far less irksome than I had anticipated. The change, from the bosom of a family to a cloister, was certainly not very pleasant. Yet upon that account I have less to regret than many: my disposition or taste never quarrels with solitude. In one instance I was rather unfortunate.—Of the three undergraduates I knew upon my coming to College, one only was a 'reading man.' By means of the other two, as my acquaintances increased, my room became in a little time the daily resort of those most miserable and unprofitable of beings, technically called '*loungers*.' This, of course, retarded my studies; and I was often compelled to sit up, after the drones had gone away, till four o'clock in the morning, to prepare my Lectures for the following day. Hints were thrown away, upon my visitors, in vain. At last I saw that either politeness or my character must be hazarded: the first was sacrificed to preserve the last. I made a candid avowal of the low state of my acquirements, and, that having so much to do, it would be madness in me to trifle my days; but if they allowed me to fix a particular hour each day, for receiving their calls, I should be most happy in seeing them. They good-humouredly assented; and from seven o'clock in the morning till eight was mentioned. I have my room to myself ever since; and this has not made them less friendly. I have seen that an extensive acquaintance is the bane of College life.

Of intimate friends, I have here only one; and he is a bosom friend, one whose intelligence, urbanity, abilities, and piety are alike conspicuous. He is a son of La Trobe, the celebrated African traveller. Unfortunately for me, he intends taking his final examination next Easter term, and will consequently leave Oxford. When he is gone, I will endeavour to replace him with another of the same stamp; and if I fail, I will turn an anchorite.

I have mixed with but very few parties; though, thanks to my fellow-collegians, I have been occasionally invited. I have adopted this course, partly from a wish of not incurring a debt, which it would be a crime in one of my station to discharge; but chiefly from a distaste of all nocturnal revels. The truth is, I never yet saw a drinking party, two hours old, that I could lay down even one of Elis y Cowper's songs, for the purpose of enjoying it.

The devotional exercises, morning and evening, are profitable and interesting; and I have an opportunity every Sunday of hearing some of the most eloquent and impressive sermons I have ever heard. Excellent opportunities are also afforded for reading. I 'sport my oak' and sit down, nothing disturbs or annoys me; and had it not been for the rumbling of carts along Ship-lane, and cries of 'muffins,' I should consider myself in a hermitage. As for temptation, it is all a bugbear. I have seen none here that would not vanish before a virtuous resolution.

AT LENOR.

(MR. E. PARRY, CAERLLEON.)

*Athrofa'r Iesu, Rhydychen,
Chwefror 25ain, 1825.*

Y mae yn ddywenydd mawr genyf ddeall fod eich Cymdeithas yn gwellhau yn ei hamcanion fel y mae ei gallu yn cynyddu. Hwyrach na lwyddwch i gael cyd-ymdrechiad y Boneddion a enwasoch;—rhai o herwydd eu hoerfel at yr achos Cymreig,—a llawer am fod rhannau eraill o'r wlad yn galw am eu gwasanaeth yn fwy na Chaer, un ai o herwydd cymydogaeth, neu feddiannau. Er hynny, pe na enillech ddim ond ymegniad gwresog ac unfryd trigolion eich tref eich hunain, byddai yn werth eich trafferth, a gallwch wneuthur gwyrthiau.

Y mae yr Iaith Gymraeg yn deilwng o'i choleddu, ac eneidiau Cymru yn werth eu cadw. Chwi a gewch fy nymuniadau goreu i, os ydynt werth rhywbeth, a phe byddai gennyf well, chwi a'i caech.

Buoch yn ddedwydd iawn gael Mr. Richards yn Gapelwr,—y mae'r gŵr hwnnw yn addurn i bob Cymdeithas lle byddo. Yr ydwyf agos yn eddigheddu y pleser a gewch ar eich Cylchwyl, ac er hynny yn ewyllsio i chwi fil mwy. Rhaid i mi gadw gwyliau Homer ddall yn lle Dewi Sant, ac aros fel mynach yn fy nghell yn lle troedio'r heolydd i ddangos fy "nghenin," a gadael i'm henaid lesmeirio wrth gyngan y delyn. Ond rhaid boddloni, ac yr ydwyf yn foddlon ac yn ddiolchgar.

Yr oeddych yn ymholi pa fodd yr ydwyf yn byw yma.—Credwch fi,—mor syml a diniwed â Meudwy, a mor ddedwydd â Thywysog. Cof am gartref a hen gyfeillion sydd weithiau yn cynhyrfu hiraeth ynof am wlad fy ngenedigaeath, a dyna'r unig ddefnyn chwerw sydd yn fy nghwpan. Y mae penaethiaid yr Athrofa yn dirion i'r eithaf, a chyd-astudwyr mor gyfeillgar ag y gallwn ddymunno.

Yr oeddwn wedi bwriadu englynion i chwi a math o awdl i'ch Cymdeithas; ond hawdd i chwi feddwl nad oes gan un a ymunodd â'r Brifysgol y'mhen pum' mis wedi cydio gyntaf mewn Ieithiadur nemawr amser i gysoddi dim. Pa fodd bynnag, dyma ryw bethau yn llun englynion "Ar y ffolineb o wadu Iaith gynhenid," a ddymunwn gyflwyno i'ch Cymdeithas a chwithau, i aros gwell.

A wirionwyd ar unwaith—yr adyn
Pan redai i estroniaith,
I wadu'i wlad, gyda lediaith,
Gwawdio hon, a gwadu ei hiaith?

A yw'n gywilydd gan ei galon—iaith serch
Iaith su ei fam radlon?
Ddyddiau hir, mor dda oedd hon
I ynganu angenion?

Ai gwr yw a gâr awen—heb arddel
Iaith beirddion disgywen?
Ai un am les hanes hen
Wrthoda chwaer iaith Eden?

Iaith oedd araeth i ddewrion,—wroniaid
Drwy enwog ymdrechion,
Tan eu heirf bloeddient yn hon
"Trowch i'r gad! tr'ewch ergydion!"

Ac onis dewis y dyn—y gyngan
Sydd rhwng cangau'r dyffryn?
A gwin i'w fant? ac ni fyn
Iaith hudoliaeth y delyn?

Onid yw iaith fyw mor fad—yn deilwng
O'n dilyth arddeliad?
Neb ond un gwrthun a'i gwad
Neu a ludd ei choleddiad.

Y mae doethaf gymdeithion—Cymroaidd,
Ac amryw o'r Saeson—
Y'Ngwalia mae angylion
Gyda'u heirf am gadw hon.

A cheir yn pleidio ei choron—euraidd
Iorwerth a'i gyfeillion,
A gwr mawr o gyrrau Môn
Yn Llywydd yn Nghaerlleon.

Mwy addas i was isel—a'i osgedd
Am esgyn yn uchel,
Garu ei iaith, a'r gwr wêl
Werth ei hurdd wrth ei harddel.

O'i gwrthod, gwawd ac erthwch,—a'i dilyn
Hyd elor drwy dristwch;
Ni cha lîn goruwch ei lwch,
O glod goreu gwladgarwch.

Boed gan Gymro ym mhob broydd—o'i brif-iaith
Bur fôst yn lle c'wilydd,
Fel na ddel, tra y del dydd,
Lediaith ar ein haelwydydd.

TELYN CYMRU.

Allan o Saesoneg Mrs. Hemans, i Gymdeithas Gymreigyddol Rhuthyn, 1824.

O delyn oesol! dyro eto gainc,
Fel pan ewynai'r hirlas yn y wledd;
Pan gurai bronnau gan wladgarol ainc,

Pan wlychid byrddau Owain gan y medd:
O Delyn! deffro 'ngrym yr oesoedd hen,
Adleisia'r bryn dy geinciau gyda gwên.

Dy dant ni's tyr—Rhufeinydd erchyll dôn
Ddaeth dros las ddyfroedd, gyda llawer rhwyf,
Enynai fflam trwy dderi sanctaidd Môn,
A gwnai gromlechau'n garnedd yn ei nwyf,
Rhoi lwch y creiriau gyd â'r gwynt a'r lli',
Delyn, rho gainc, nis gallai d'atal di.

Dy dant ni's torrir. Chwyfiodd baner Sais
Yn ddig ar awel flith Eryri gerth,
Uwch bloedd ei udgyrn, clywid swm dy lais,
Pan guchia'i gestyll ar y clogwyn serth,
Cynhyrfai'th dôn y dewrion i fwy bri,
Eu llethri oedd ganddynt, bronau rhydd, a thi

Oes ddu oedd hon; pan gwypai'r glew dirus,
Pan dyfai chwyn gylch bwrdd lle gwleddodd cant,
Pan lechai'r llwynog yn y drylliwg lys,
Oedd nerth i ti'r pryd hyn—dawn ym mhob tant,
Yn nyddiau heddy geinciau grymus gyr,
O Delyn bêr! o'th dannau un ni's tyr.

AT EI RIENI.

*Athrofa'r Iesu, Rhydychen,
Chwefror, 11fed, 1826.*

ANWYL RIENI,

Yn lle esgus dros fod yn ddistaw cyhyd, rhoddaf i chwi hanes byr o'r modd yr ydwyf yn byw. Wrth ymdrechu dyfod i fyny gyda y rhai a gawsant bob mantais ysgolheigaidd ym moreu eu hoes, yr wyf yn gorfod bod yn ddiwyd iawn wrth fy llyfrau. Nid ydyw treiddio i mewn i ieithoedd ond gorchwyl sych a diffryth, ac i un yn fy sefyllfa i, o ran gwall cyfleusterau boreuol, y mae yn waith digon caled. Am y tro cyntaf yn fy mywyd, yr wyf yn cael fod "darllen llawer yn flinder i'r cnawd." Nid ydyw caethiwo fy hun i fyfyrddod wedi cael un effaith ddrwg ar fy iechyd eto. Aeth cyfaill i mi, a ddarllenasai lawer llai na mi, adref ddoe wedi ei nychu gan ormod o waith. Y mae fy nghorff yn gadarn wrth natur, ond yr wyf yn gorfod cerdded allan ryw faint bob dydd, er mwyn ei gadw mewn trefn.

Bu holiad cyffredin yn ddiweddar ar holl aelodau ein Coleg ni. Aethum drwyddo yn well nag yr oeddwn i na'm hathrawon yn disgwyl. O hyn i wyl Mihangel nesaf, rhaid imi fyned drwy ffwrn boethach nag a brofais eto,—cael fy holi ar gyhoedd o flaen yr holl Brif-ysgol, am fy ngwybodaeth o'r Lladin a'r Roeg, a Rhesymeg. Rhaid i mi hefyd ddysgu ysgrifeni Lladin mor rhwydd â Chymraeg. Yr wyf yn fynych yn crynu wrth feddwl am y frawdle, yn enwedig wrth weled cynnifer a gawsant eu dwyn i fyny yn yr ysgolion goreu o'u mebyd, yn colli'r dydd. Y mae fy mhws yn bennaf ar y Rhagluniaeth oruchel a fu mor dyner tuay ataf hyd yn hyn. Y'mhellach, yr wyf yn yslyried mai fy nyledswydd ataf fy hun—at fy nghynnalwyr—ac at y plwyfolion a gaf ryw dro, hwyrach, o dan fy ngofal—ydyw lloffa cymaint ag a allaf o wybodaeth am bob dysg a chelfyddyd. Gwelodd y caredig Mr. Clough a Mr. Phillips fy awyddfryd am bob hyfforddiad, a chymerasant fi gyda hwynt i wrando y darlithoedd a draddodir gan ein prif ddysgedigion ar y celfyddydau breiniol. Y diweddaraf a glywais oedd yr enwog Ddoctor Buckland, areithydd ar natur y ddaear, ei chreigydd a'i meteloedd. Pan ddeuaf adref gallaf roddi i chwi rai newyddion am weithiau glo a phlwm. Hawdd i chwi weled fod y gofalon a'r gorchwylion hyn yn difa fy holl amser, ac nid hyn yw y cwbl. Wrth aneddu yn Nhrefaldwyn a Rhydychen, ffurfais gydnabyddiaeth â llawer o foneddigion,—rhaid o honynt, o ran dysg a dawn, ym mhlith y gwyr enwocaf yn y deyrnas. Nid oes boreu braidd yn myned heibio nad wyf yn derbyn llythyr o ryw gwr neu gilydd i'r wlad. Nid oes gennyf, gyda chwareu teg, amser i ateb un o honynt; ac os bydd un gohebwr y gallaf hyderu ar ei gyfeillgarwch i beidio digio wrthyf, yr wyf yn gadael iddo aros nes elo fy helbul yn yr athrofa heibio. Fy mwriad yn myned dros yr holl bethau hyn ydyw, i ddangos i chwi a'm hanwyl gyfeillion, Mr. Thomas Jones ac Isaac, yr unig achos na ysgrifenis atoch oll lawer cyn hyn. Os gwelwch ddim yn yr hyn a ddywedais, yn mynegi yr anrhydedd anisgwyladwy a ddaeth i'm rhan, gwybyddwch mai nid er mwyn cynhyrfu ymffrosll ynoch yr adroddais ef; ond yn hytrach er eich annog i uno gyda mi mewn diolchgarwch i'r Duw a fu mor dirion wrthyf. Bydd yn dda genych glywed fy mod i ac oddeutu hanner dwsin o'm cyd-ysgolheigion wedi llwyddo i gael Cymdeithas Genadawl fechan yn ein hathrofa. Yr ydym hefyd yn ymgysgu yn ystafelloedd ein gilydd, yn olynol, ar nosau Sul, i ddarllen y Bibl a gweddio. Nos Sul diweddaraf yr oeddynt oll yn fy ystafell i: a phan byddo dadwrdd cyfeddach yn taro ar ein clustiau o ystafelloedd eraill, gallwn ddweyd, "Rhoddaist fwy llawenydd yn ein calon nag yr amser yr amlhaodd eu bŷd a'u gwin hwynt."

Hyfryd iawn oedd genyf glywed am ymwardd fy anwyl chwaer. Cofiwch fi ati yn garedig, at fy mrawd, yr holl blant, ac yn enwedig at y ferch ddieithr. Buasai dda genyf allu anfon anrheg iddi hi a'i mam, ond mae hynny yn bresenol o fy nghyrraedd. Gadewch iddo—mae'r galon yn llawn, os yw'r pwrs yn wag. Byddwch gystal a rhoddi y penhillion canlynol iddi yn lle *Valentine*:

Henffych, ferch, i fyd o ofid,
Byd y dagrau, byd y groes:
Agoraist lygad ar yr adfyd,
Ti gei flinder os cei oes.
Mae gwlad well tu draw i'r afon,—
Nes cael glan ar oror iach,
Rhag pob drwg, y Duw sy'n Sïon,
Fo'n dy noddi, Marged bach.

Mae'm dychymyg fel yn gwrando
P'un a glywaf mo dy sain,—
Gan holi'r awel sy'n mynd beibio,
A yw'th wyneb fel dy nain?
A oes eurwallt ar dy goryn?
A oes rhosyn ar dy rudd?
A pha dybiau sydd yn dirwyn
Drwy'th freuddwydion nos a dydd?

Pe bawn yna, anwyl faban,
Mi'th gofleidiwn gyda serch;
Ceit fy mendith am dy gusan,
Mi'th gyfrifwn fel fy merch:
Ac os try Rhaglumaeth olwyn
Fyth i'm dwyn i dir fy ngwlad,
Ti gei weled y gall rhywun
Garu ei nithoedd megis tad.

Yr wyf yn gyrru --- i Ruth: mae yn rhy fychan, ond y gwir yw hyn,—hyd wyl Mihangel nesaf byddaf yn llwm iawn o arian; wedi hynny, caf dderbyn swm ychwanegol yn y flwyddyn. Yna mi ofalaf am dalu eich rhent, eich tir pytatws, a phesgi'r mochyn. Rhoddwch ddillad da am Ruth . . . Unwaith eto, yr wyf yn eich tynghe, na oddefwch eisiau dim. Gyda bendith, nid oes perygl na allaf ei dalu yn ol ar ei ganfed. Pa beth ydyw gwaith fy nhad? A ydyw'n esmwyth? Cofiwch fi yn garedig at deulu Broncoed, a rhoddwch fy serch at fy hen gyfeillion oll . . . Mae amser a phapur wedi pallu, y gloch yn taro pedwar yn y borau—a'r ganwyll yn llosgi i'r ganwyllbren—ni chaf ond dywedyd fy mod yn aros,

Eich dyledog fab,
J. BLACKWELL.

CYWYDD Y GWAHAWDD:

A anfonwyd mewn llythyr o wnhoddiad Medi 6ed, 1826, oddiwrth Ifor Ceri, at Wilym Aled a'i Gywely.

Eto, Aled, atolwg
Gad si'r dre', a mangre mwg;
Gad Saeson, gwawd, a sisial
Arian, a thincian, a thâl;
Gad wwbw a gwau diball
Mammon i feibion y fall:
Rho i'th law,—pryd noswyliaw sydd,
Eleni un awr lonydd;
Gwamal i ti ogymaint
Hela myrdd, a holi maint
Ydyw gwerth yr indigo,
A ffwgws, heb ddiffygio,
Gan na cheir gennyh hwyrach
Weled byth un Aled bach,
Na geneth, a drin geiniog
O dyrrau llawn dy aur llog.
O fewn llong tyrd tros gefn llwyd
Y *Mersey*, heb ddim arswyd,—
A'th gymar sydd werth gemau
Prysurwch, deuwch eich dau
I Geri, fan hawddgaraf,
Man gwâr, lle mae hwy'r hâf:
Mor loewlon y mae'r lili
A'r rhos yn eich aros chwi,
A phleth rydd yr adar fflwch,
Hyd awyr, pan y deuwch;
Cewch eich dau wenau uniawn
Ifor a Nest, fore a nawn:
(Yma diolch raid imi
"Amen dywed gyda mi,"
Ddwyn Ifor, gan Dduw nefol,
A'i wiw Nest, i Geri'n ol:)

At un Nest dda west, ddiwall,
Tyred a dy Nest arall;
Braint cyn bedd, cael medd a maeth
Maesaleg un mis helaeth;
Y mae sylwedd Maesaleg,
A'i dôr, yn y Geri deg.

Y mae un gwr mwy nag oll,
Awch digoll uwch ei degan:
Ifor bach sydd a'i ferw byth,
Drwy gofio yn dragyfyth;
"Mae'r gwr yn mhryd mebyd mau,
Enynnodd hen awenau
Y glyn, nes oedd bryn a bro,
A gwig las, yn gogleisio;
Ai pell—ai trapell y trig—y gwiwddyn
Fynnai delyn a cherdd fy Nadolig?"

Tyrd Aled, ira d'olwyn,
A thyrd i ddoldir a thwyn;
Ac awyr lem Ceri lân,
Perarogl copa'r Aran;
Gwrandaw sibrwd y ffrwd ffraw—rhwng deilfur,
Y dwr eglur yn trydar wrth dreiglaw;
Rhodio i wrando'r ehedydd,
Dringo'r bryn ar derfyn dydd;
Hufen Nest a chân Ifor,
A dŵr mad, drwy rad yr Ior,—
Wnant it' neidio a gwisgo gwên,
Deui'n foch-goch,—doi'n fachgen.

Gan Alun, gwan wehelyth,
O fwrdd i fwrdd, wael fardd fyth,—
Gwely nid oes, nac aelwyd,
Na bir i'w gynnyg, na bwyd,—
Cei law a chalon lawen,
A mwy ni cheisi, Amen.

DISADVANTAGES AND AIMS.

TO R. GARNONS,

*Jesus College, Oxford,
October 2nd, 1826.*

I can hardly hope, in four short years, to surmount the disadvantages of my youth, and gain academical distinction. To him, who in his 20th year, learnt his Greek alphabet, a first class at College must be a hopeless aim; while an University prize must be beyond the reach of one who merely began to speak English about his twentieth year. Aware of these circumstances, the friends whom I consult have advised me to collect (should necessary studies allow me leisure) as much as I can of such information as will be useful to me in the sacred office I shall be called upon to fill. What I shall lose in attainments, I will endeavour to make up in Christian conduct. That God, who is the sole Dispenser of all the blessings that has been showered upon my path, claims my first duty. My next ambition will be to fulfil my ministry with that zeal and decorum which characterize the spirit of our venerable Establishment; while gratitude will prompt me to dedicate my leisure hours to the literature of my native Principality.

That I may thus live, is my fervent prayer; and all I ask in addition, is a situation where I may watch over the wants of my poor, but worthy parents; and make as far as depends on human aid, their evening set in smiles.

I am, Sir, your most obedient servant,
J. BLACKWELL.

CALVINISM.

*To the Committee of the Welsh Church in Liverpool.
Neptune Hotel, Liverpool,
July 20th, 1827.*

GENTLEMEN,

I was nurtured among Calvinists. To their Sunday School I am indebted for almost all the education my youthful years were blessed with. Towards some of them I was taught in infancy to look up with reverence and esteem; and the recollection of their Christian virtues proves to me that whatever tendency Calvinism may have to relax the ties of moral obligation, the argument cannot be drawn from the lives of many of its professors. With many Clergymen who take Calvinism for their creed, I have still the happiness to live in bonds of Christian friendship; but

my respect for the men does not blind me to their opinions. I am no Calvinist, and ever since I have been capable of forming a judgment upon theological subjects, I have not been a Calvinist. The sincerity of my attachment to our national Church cannot, I trust, be doubted. I was made a member of her by Baptism, and ever since I have attained to years of discretion, my public devotions have been offered up within her pale. For many a dark year—long before the idea of my being elevated to the clerical function had received a shadow of existence, I had resolved to live and die an humble worshipper at her altar.

J. BLACKWELL.

AT EI FAM, PAN OEDD WEDDW.

*Athrofa'r Iesu, Rhydychen,
Hyd. 19eg 1827.*

FY ANWYL FAM,

Fy nyledswydd ydyw hysbysu i chwi, gyda phob brys, fy mod wedi cyrraedd pen fy nhaith yn gysurus, a chael pob peth wrth fy modd. Y mae y cyflwr unig y gadewais chwi ynddo, yn peri i mi hiraethu mwy am danoch y tro hwn nag un tro o'r blaen. Buasai yn dda gan fy nghalon gael aros yn agos atoch nes i angeu ein gwahanu. Ond nid felly y mae Rhagluniaeth yn trefnu: rhaid i ninnau ymostwng. O ddiwrnod i ddiwrnod daw y flwyddyn i fyny, pan y caf eich gweled, gobeithio, mewn gwell iechyd ac ysbrydoedd nag y gadewais chwi. Yn y cyfamser erfyniaf arnoch, er dim, i gadw eich meddwl mor dawel ag y galloch: ar hyn y mae eich cysur chwi a minnau yn ymddibynu. Ni wna tristhau ac ymofidio ddim ond gwaethygu eich llygaid dolurus, a chlwyfo meddwl y rhai a'ch carant. Digon gwir cawsom golled fawr,—collasom y cyfaill ffyddlonaf a thirionaf a welsom erioed; eto "na thristawn fel rhai heb obaith." Oni adawodd dystiolaeth ar ei ol ei fod wedi myned i ddedwyddwch—i wlad well na daear, "lle y gorffwys y rhai lluddedig, ac ni chlywant lais y gorthrymydd." Ac os dilynwn ei lwybrau, ni a gawn ei gyfarfod eto mewn ardal nad oes na phechod, na phoen, nag ymadawiad o'i mewn. "Gwir ddymuniad fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw sydd erddoch."

CWYN AR OL CYFAILL.

Pan hirarosai yn Rhydychen, Mehefin, 1827.

(Efelychiad o "Bugail Cwmdyli," gan I. G. G.)

Trwy ba bleserau byd
Yr wyt yn crwydro c'yd?
Mae pleser fel y lli',
A'r moethau goreu i mi
Yn wermod hebot ti,
Sior anwylaf.

Trwm wibio llygad llaith
Am danat yw fy ngwaith;
A rhodio godre'r bryn,
A gwyrddion lannau'r llyn,
Lle rhodit ti cyn hyn,
Sior anwylaf.

Mae peraidd flodau d'ar-dd
Yn gwywo fel dy far-dd;
A'th ddefaid hyd y ddôl,
A'u gwirion wŷn o'u hol
Yn gofyn ddo'i di'n ol,
Sior anwylaf.

Mae'n Nghymru laeth a mêl,
Mae'n Nghymru fron ddi-gêl,
Mae'n Nghymru un yn brudd
O'th eisiau, nôs a dydd,—
A'i gair wrth farw fydd,
Sior anwylaf.

MARWOLAETH YR ESGOB HEBER.

Lle treigla'r Caveri [{101}](#) yn donnau tryloewon,
Rhwing glennydd lle chwardd y pomgranad a'r pîn
Lle tyfa perlaysiau yn llwyni teleidion,
Lle distyll eu cangau y neithdar a'r gwîn;
Eisteddai Hindoo ar lawr i alaru,
Ei ddaagrau yn llif dros ei riddiau melynddu,
A'i fron braidd rhy lawn i'w dafod lefaru,
Ymdorraei ei alaeth fel hyn dros ei fin:—

“Fy ngwlad! O fy ngwlad, lle gorwedd fy nhadau!
Ai mangre y nos fyddi byth fel yn awr?
Y Seren a dybiais oedd Seren y borau,
Ar nawn ei disgleirdeb a syrthiodd i lawr;
Y dwyrain a wenai, y tymor tywynnodd,
A godrau y cwmwl cadduglyd oreurodd,
Disgwyliais am haul—ond y Seren fachludodd
Cyn i mi weled ond cysgod y wawr.

“Fy ngwlad! O fy ngwlad! yn ofer yr hidlwyd
I’th fynwes fendithion rhagorach nag un,
Yn ofer âg urdd bryd a phryd y’th anrhegwyd,
Cywreindeb i fab, a phrydferthwch i fun;
Yn ofer tywynni mewn gwedd ddigyfartal,
A blodau amryliw yn hulio dy anial,
A nentydd yn siarad ar wely o risial,
A pbob peth yn ddwyfol ond ysbryd y dyn.

“Yn ofer y tardd trwy dy dir heb eu gofyn
Ddillynion per anian yn fil ac yn fyrdd;
Yn ofer y gwisgwyd pob dôl a phob dyffryn
A dillad Paradwys yn wyn ac yn wyrdd;
Yn ofer rhoi awen o Nef i dy adar,
A gwythi o berl i fritho dy ddaear;
Yn ofer pob dawn tra mae bonllef a thrydar
Yr angrhed a’i anrhaith yn llenwi dy ffyrdd.

“Dy goelgrefydd greulon wna d’ar-dd yn anialdir,
Ei sylfaen yw gwaed, a gorthrymder a cham:
Pa oergri fwrlymaidd o’r Ganges [{102a}](#) a glywir?
Maban a foddwyd gan grefydd y fam:
Ond gwaddod y gwae iddi hithau ddaw heibio;
O! dacw’r nen gan y goelcerth yn rhuddo,
Ac uchel glogwyni y Malwah [{102b}](#) ’n adseinio
Gan ddolef y weddw o ganol y fflam.

“Gobeithiais cyn hyn buasai enw Duw Israel,
A’r aberth anfeidrol ar ael Calfari,
Yn destun pob cerddi o draeth Coromandel,
A chonglau Bengal hyd i eithaf Tickree; [{102c}](#)
Ac onid oedd Bramah yn crynu ar ei cherbyd,
Er y pryd y bu Swartz yn cyhoeddi fod bywyd
Yn angau y groes i Baganiaid dwyreinfyd?—
Pan gredodd fy nhad yr hyn ddysgodd i mi. [{102d}](#)

“A’th ddoniau yn nwch, ac yn uwch dy sefyllfa,
A’th enaid yn dân o enyniad y Nef,
Cyhoeddaist ti, Heber, yr unrhyw ddiangfa,
Gyda’r un serch ac addfwynder ag ef;
Dyferai fel gwllith ar y rhos dy hyawdledd,
Enillai’r digred at y groes a’r gwirionedd,
Llonyddai’r gydwybod mewn nefol drugaredd;—
Mor chwith na chaf mwyach byth glywed dy lef.

“Doe i felynion a gwynion yn dryfrith,
Cyfrenit elfennau danteithion y nen;
Y plant a feithrinit nesdaent am dy fendith,
A gwenent wrth deimlo dy law ar eu pen;
Doe y datgenit fod Nef i’r trallodus—
Heddyw ffraethineb sy’ fud ar dy wefus—
Ehedaist o’r ddaear heb wasgfa ofidus,
I weled dy Brynwr heb gwmwl na llen. [{103a}](#)

‘Fy ngwlad! O fy ngwlad! bu ddrwg i ti’r diwrnod
‘Raeth Heber o rwymau marwoldeb yn rhydd;
Y grechwen sy’n codi o demlau’r eulunod,
Ac uffern yn ateb y grechwen y sydd;
Juggernaut [{103b}](#) erch barotoa’i olwynion—
Olwynion a liwir gan gochwaed dy feibion—
Duodd y nos—ac i deulu Duw Sion
Diflannodd pob gobaith am weled y dydd.”

Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio,
Gwnai gam âg addewid gyfoethog yr IÔR:
A ddiffydd yr haul am i seren fachludo?
Os pallodd yr aber, a sychodd y môr?
Na, na, fe ddaw bore bydd un Halelua,
Yn ennyn o’r Gauts hyd gopâu Himalaya, [{104a}](#)

Bydd baner yr Oen ar bob clogwyn yn India,
O aelgerth Cashgur hyd i garth Travancore.

A hwyrach mai d'wyrion a gasglant dy ddelwau
A fwrir i'r wâdd ar bob twmpath a bryn,
Ar feddrod ein Heber i'w rhoi yn lle blodau,—
Ei gyfran o ysbail ddymunodd cyn hyn:
Heber! ei enw ddeffrodd alarnadau,
Gydymaith mewn galar, rho fenthyg dy dannau,
Cymysgwn ein cerddi, cymysgwn ein dagrau,
Os dinôdd y gerdd bydd y llygad yn llyn.

Yn anterth dy lwydd, Heber, syrthiaist i'r beddrod,
Cyn i dy goryn ddwyn un blewyn brith;
Yn nghanol dy lesni y gwywaist i'r gwaelod,
A'th ddeilen yn îr gan y wawrddydd a'r gwllith:
Mewn munyd newidiaist y meitr am goron,
A'r fantell esgobawl am wisg wen yn Sion,
Ac acen galarnad am hymn anfarwolion,
A thithau gymysgaist dy hymn yn eu plith.

Llwyni Academus, {104b} cynorsaf dy lwyddiant,
Lle gwridaist wrth glod y dysgedig a'r gwâr;
Y cangau a eiliaist a droed yn adgofiant
O alar ac alaeth i'r lluoedd a'th gâr:
Llygaid ein ieuencid, a ddysgwyd i'th hoffi,
Wrth weled dy ardeb yn britho ffenestri
A lanwant, gan gofio fod ffrydiau Caveri
Yn golchi dy fynwent wrth draeth Tanquebar.

Llaith oedd dy fin gan wlithoedd Castalia,
O Helicon yfaist ym more dy oes;
Ond hoffaist wlith Hermon a ffrydiau Siloa,
A swyn pob testynau daearol a ffoes:
Athrylith, Athroniaeth, a dysg yr Awenau,
A blethent eu llawryf o gylch dy arleisiau;
Tithau'n ddi-fôst a dderbyniaist eu cedau,
I'w hongian yn offrwm ar drostan y Groes.

Pan oedd byd yn agor ei byrth i dy dderbyn,
Gan addaw pob mwyniant os unit âg ef,—
Cofleidiaist y Groes, a chyfrifaist yn elyn
Bob meddwl a geisiai fynd rhyngot a'r nef:
Yn Hodnet {105} yn hir saif dy enw ar galonnau
Y diriaid ddychwelwyd yn saint trwy'th bregethau—
Amddifad gadd borth yn dy briod a thithau—
Y weddw a noddaist—y wan wneist yn gref.

Gadewaist a'th garant—yn ysbryd Cenadwr
Y nofiaist tros donnau trochionog y môr,
I ddatgan fod Iesu yn berffaith Waredwr
I Vahmond Delhi, ac i Frahmin Mysore;
Daeth bywyd ac adnerth i Eglwys y Dwyrain—
Offrymwyd ar allor Duw Israel a Phrydain—
Yn nagrau a galar Hindoo gallwn ddarllain
Na sengaist ti India heb gwmni dy IÔR.

O Gôr Trichinopoly, cadw di'n ddiogel
Weddillion y Sant i fwynhau melus hun,
Pan ferwo y weilgi ar lan Coromandel,
Gofynnir adfeilion ei babell bob un;—
Ond tawed ein pruddgerdd am bennill melusach,
A ganodd ein Heber ar dannau siriolach,
Yn arwyl y Bardd â pha odlau cymhwysach
Dilynir ei elor na'i odlau ei hun?

“Diangaist i'r bedd—ni alarwn am danad,
Er mai trigfa galar a niwl ydyw'r bedd;
Agorwyd ei ddorau o'r blaen gan dy Geidwad,
A'i gariad gwna'r ddunos yn ddiwrnod o hedd.
Diangaist i'r bedd—ac ni welwn di mwyach
Yn dringo rhiw bywyd trwy ludded a phoen:
Ond breichiau rhad rês a'th gofleidiant ti bellach,
Daeth gobaith i'r euog pan drengodd yr Oen.

“Diangaist i'r bedd—ac wrth adael marwoldeb
Rhwng hyder ac ofn, os unwaith petrusaist,
Dy lygaid agorwyd yn nydd tragwyddoldeb,

Ac angel a ganodd yr Anthem a glywaist.
Diangaist i'r bedd—byddai'n bechod galaru,
At Dduw y diangaist—y Duw a dy roes:
Efe a'th gymerodd—Efe wna'th adferu
Digolyn yw angau trwy angau y groes.”

* * * * *

Cyfieithiad yw'r ddau bennill olaf o emyn Heber ei hun,—
“Thou art gone to the grave, but we will not deplore thee,
Though sadness and sorrow encompass the tomb.”

SEREN BETHLEHEM.

(Cyfieithiad o Saesoneg H. K. White.)

Pan bo sêr anhraethol nifer
Yn britho tywyll lenni'r nen,
At *un* yn unig drwy'r eangder
Y tâl i'r euog godi ei ben;
Clywch! Hosanna'n felus ddwndwr
Red i Dduw o em i em,
Ond *un* sy'n datgan y Gwaredwr,
Honno yw Seren Bethlehem.

Unwaith hwyliais ar y cefnfor
A'r 'storm yn gerth, a'r nos yn ddu,
Minnau heb na llyw, nac angor,
Na gwawr, na gobaith o un tu,
Nerth a dyfais wedi gorffen,
Dim ond soddi yn fy nhrem,
Ar fy ing y cododd seren,
Seren nefol Bethlehem.

Bu'n llusern a thywysydd imi,
Lladdodd ofn y dyfrllyd fedd,
Ac o erchyll safn y weilgi
Dug fi i borthladd dwyfol heddi;—
Mae'n awr yn deg, a minnau'n canu,
F'achub o'r ystorom lem,
A chanaf pan bo'r byd yn fflagu
Seren! Seren! Bethlehem!

AT MANOR DEIFI.

TO E. WHITLEY, ESQ., BRONCOED.

Cardigan, March 30th, 1835.

MY EVER DEAR SIR,

Old recollections—and recollections dearer for being old—make Broncoed and the name of Whitley much dearer to my memory and heart than other names and places. My own former humble home is now another's,—I know it no more; and there is scarcely a house now in the parish into which I would venture to turn besides yours, your cousin's, Mr. Clough's and two or three more. Yet, I feel a tie between me and Mold and its inhabitants, which nothing but death can unloose. There lies the grave of my dear, though poor parents, and there burst the dawn of my brightest days. The same Providence which smiled upon the beginning of my happier years, continues kind still. I have indeed abundant reason to thank heaven for the many, many blessings which have been showered upon my path; nor do I forget the kind hands which were employed in showering them, and your own amongst the number.

When I first came to Manordeifi, there was but one service on the Sunday, and that almost entirely in Welsh. Seeing that five of the principal families in Pembrokeshire were under my pastoral care, and that neither themselves nor their dependants understood any Welsh, I established two services, one entirely English, the other exclusively in our beloved Welsh.

CATHL I'R EOS.

Pan guddio nos ein daear gu
O dan ei du adenydd,
Y clywir dy delori mwyn,
A chôr y llwyn yn llonydd;
Ac os bydd pigyn dan dy fron
Yn peri i'th galon guro,
Ni wnai, nes torro'r wawrddydd hael,
Ond canu a gadael iddo.

A thebyg it' yw'r feinir wâr
Sydd gymar gwell na gemau,
Er cilio haul, a hulio bro
A miloedd o gymylau;
Pan dawo holl gysurwyr dydd,
Hi lyna yn ffyddlonaf;
Yn nyfnder nos o boen a thrais
Y dyry lais felusaf.

Er dichon fod ei chalon wan
Yn delwi dan y dulid,
Ni chwyna, i flino'i hanwyl rai,—
Ei gwên a guddia'i gofid:
Ni pheidia'i cân trwy ddunos faith,
Nes gweled gobaith goleu
Yn t'wynu, megys llygad aur,
Trwy bur amrantau'r boreu.

ABAD-DY TINTERN.

Pa sawl bron a oerodd yma?
Pa sawl llygad ga'dd ei gloi?
Pa sawl un sydd yn y gladdfa,
A'r cof o honynt wedi ffoi?
Pa sawl gwaith, ar wawr a gosber
Swnia'r gloch ar hyd y glyn?
Pa sawl *Ave*, cred a phader,
Dd'wedwyd rhwng y muriau hyn?

Ar y gareg sydd gyferbyn,
A faluriwyd gan yr hin,
Tybiaf weld, o flaen ei eilun,
Ryw bererin ar ei lin;
Tybiaf fod y mwg o'r thuser
Eto'n codi'n golofn wen,
A bod swm yr organ seinber
Eto yn dadseinio'r nen.

Ond Distawrwydd wnaeth ei phabell
Lle cartrefai'r anthem gynt;
Nid oes yma, o gor i gangell,
Un erddygan, ond y gwynt.—
Felly darffo pob coel-grefydd,
Crymed byd ger bron y Gwir;
Hedd a chariad, ar eu cynnydd,
Fo'n teyrnasu tros y tir.

CAN GWRAIG Y PYSGOTWR.

Gorffwys donn, dylifa'n llonydd,
Paid a digio wrth y creigydd;
Y mae anian yn noswyllo,
Pa'm y byddi di yn effro?
Dwndwr daear sydd yn darfod,—
Cysga dithau ar dy dywod.

Gorffwys for! mae ar dy lasdon
Un yn dwyn serchiadau 'nghalon;
Nid ei ran yw bywyd segur,
Ar dy lifiant mae ei lafur;
Bydd dda wrtho, for diddarfod,
Cysga'n dawel ar dy dywod.

Paid a grwgnach, bydd yn ddididig,
Dyro ffrwyn ym mhen dy gesig;
A pha esgus iti ffromi?
Nid oes gwynt ym mrig y llwyni:
Tyrd a bad fy ngwr i'r diddos
Cyn cysgodion dwfn y ceunos.

Iawn i wraig yw teimlo pryder
Pan bo'i gwr ar gefn y dyfnder;
Ond os cyffry dig dy donnau,
Pwy a ddirnad ei theimladau?
O bydd dirion wrth fy mhriod,—
Cysga'n dawel ar dy dywod.

Byddar ydwyt i fy ymbil,
For didostur, ddofn dy grombil;
Trof at Un a all dy farchog
Pan bo'th donnau yn gynddeiriog;
Cymer Ef fy ngwr i'w gysgod,
A gwna di'n dawel ar dy dywod.



GWRAIG Y PYSGOTWR.
"Gorffwys fôr, mae ar y lasden
Un yn dwyn serchiadau 'nghalon."

Y DDEILEN GRIN

Sech yw'r ddeilen ar y brigyn,
Buan iawn i'r llaid y disgyn;
Ond y meddwl call a ddarllen
Wers o addysg ar y ddeilen.

Unwaith chwaddodd mewn gwyrddlesni,
Gwawr y nef orftwysodd arni;
Gyda myrddiwn o gyfeillion,
Dawnsiodd yn yr hwyr awelon.

Darfu'r urdd oedd arni gynnau,
Prin y deil dan wllith y borau,
Cryna rhag y chwa ireiddlon
Sydd yn angeu i'w chyfoedion.

Ni all haul er ymbelydru,
Na llawn lloer er ei hariannu,
Ac ni all yr awel dyner
Alw yn ol ei hen ireidd-der.

Blaguro ychydig oedd ei chyfran,
Rhoi un wên ar wyneb anian;
Llef o'r nef yn Hydref waedda—
Darfu'th waith,"—a hithau drenga.

Footnotes:

- [{1a}](#) O wawl-arluniau gan y diweddar John Thomas.
- [{1b}](#) O wawl-arluniau gan y diweddar John Thomas.
- [{1c}](#) O wawl-arluniau gan y diweddar John Thomas.
- [{1d}](#) O wawl-arluniau gan y diweddar John Thomas.
- [{26}](#) Cyfeiriad at farwolaeth echrydus Iorwerth II. Cym. *The Bard*, Gray.
- [{27}](#) Man y llofruddiwyd llawer o hil Edward.
- [{28}](#) Harri VII., buddugwr Bosworth.
- [{33}](#) Yr arwyddair dan Loer arian y Twrc yw,—“Nes llenwi hol ddaear.”
- [{45a}](#) Flodden Field, by Sir Walter Scott.
- [{45b}](#) Siege of Corinth, by Lord Byron; and Siege of Valencia, by Mrs. Hemans.
- [{47}](#) The English Channel.
- [{53}](#) Hesperus, the evening star.
- [{101}](#) Caveri.—Afon yn Ngorllewin Hindostan, a lifa heibio Trichinopoly, claddfa yr Esgob Heber, ac a ymarllwysa i fôr Coromandel wrth Tranquebar.
- [{102a}](#) Ganges—prif afon India—gwrthddrych addoliad y Brahminiaid. Cyffredin ydyw i wragedd daflu eu mabanod i’w thonnau er mwyn boddio y duw Himalaya, a elwir yn Dad y Ganges.
- [{102b}](#) Y Malwah.—Rhes o fynyddoedd uchel yng nghanol Hindostan. Nid yw cyngor na cherydd Prydeiniaid yn gallu rhwystro yr arfer greulon gynhwynol o losgi gweddwon byw gyda’u gwyr meirw.
- [{102c}](#) Nid anghyffelyb Hindostan i drionglyn, Coromandel, Tickree, a Bengal, ydynt y conglau.
- [{102d}](#) Tybir bod tua 40,000 o Gristionogion, ond bod mwy na’u hanner yn Babyddion, yn y Carnatic. Nid yw prin werth crybwyll mai un o hil dyscyblion Swartz, cenadwr enwog tua chan’ mlynedd yn ol, ydyw yr Hindoo a ddychymyga yr Alarnad.
- [{103a}](#) Angeu disyfyd a gymerodd Heber ymaith tra y mwynhai drochfa dwymn. Y dydd o’r blaen—y Sabbath—cyflawnai ddyledswyddau ei daith esgobawl.
- [{103b}](#) Juggernaut—un o eilunod pennaf Hindostan. Ar ei gylchwyl llusgir ef ar gert enfawr i ymweled â’i hafoty. Ymdafla miloedd o’i addolwyr dan ei olwynion trymion, ac yno y llethir hwynt.
- [{104a}](#) Gauts—mynyddoedd uchel wrth Travancore, penrhyn deheuol.—Himalaya, mynyddoedd uwch, wrth Cashgur, penrhyn gogleddol Hindostan.
- [{104b}](#) Llwyni Academus. Nid oes ond a wypo a ddichon ddychymygu y parch a dalwyd yn Rhydychen i Heber, ar parch a delir eto i’w enw. Yno y daeth gyntaf i wydd yr oes drwy ei Balestine, a gyfieithwyd i’r Gymraeg mor ardaerchog gan yr unig wr cyfaddas i’r gorchwyl—yr enwocaf Gymro, Dr. Pughe.
- [{105}](#) Hodnet—yn Amwythig—yno y cyflawnai Heber swydd Bugail Cristionogol yn ddifefl hyd ei symudiad i India.

*** END OF THE PROJECT GUTENBERG EBOOK GWAITH ALUN ***

Updated editions will replace the previous one—the old editions will be renamed.

Creating the works from print editions not protected by U.S. copyright law means that no one owns a United States copyright in these works, so the Foundation (and you!) can copy and distribute it in the United States without permission and without paying copyright royalties. Special rules, set forth in the General Terms of Use part of this license, apply to copying and distributing Project Gutenberg™ electronic works to protect the PROJECT GUTENBERG™ concept and trademark. Project Gutenberg is a registered trademark, and may not be used if you charge for an eBook, except by following the terms of the trademark license, including paying royalties for use of the Project Gutenberg trademark. If you do not charge anything for copies of this eBook, complying with the trademark license is very easy. You may use this eBook for nearly any purpose such as creation of derivative works, reports, performances and research. Project Gutenberg eBooks may be modified and printed and given away—you may do practically ANYTHING in the United States with eBooks not protected by U.S. copyright law. Redistribution is subject to the trademark license, especially commercial redistribution.

START: FULL LICENSE
THE FULL PROJECT GUTENBERG LICENSE
PLEASE READ THIS BEFORE YOU DISTRIBUTE OR USE THIS WORK

To protect the Project Gutenberg™ mission of promoting the free distribution of electronic works, by using or distributing this work (or any other work associated in any way with the phrase “Project Gutenberg”), you agree to comply with all the terms of the Full Project Gutenberg™ License available with this file or online at www.gutenberg.org/license.

Section 1. General Terms of Use and Redistributing Project Gutenberg™ electronic works

1.A. By reading or using any part of this Project Gutenberg™ electronic work, you indicate that you have read, understand, agree to and accept all the terms of this license and intellectual property (trademark/copyright) agreement. If you do not agree to abide by all the terms of this agreement, you must cease using and return or destroy all copies of Project Gutenberg™ electronic works in your possession. If you paid a fee for obtaining a copy of or access to a Project Gutenberg™ electronic work and you do not agree to be bound by the terms of this agreement, you may obtain a refund from the person or entity to whom you paid the fee as set forth in paragraph 1.E.8.

1.B. “Project Gutenberg” is a registered trademark. It may only be used on or associated in any way with an electronic work by people who agree to be bound by the terms of this agreement. There are a few things that you can do with most Project Gutenberg™ electronic works even without complying with the full terms of this agreement. See paragraph 1.C below. There are a lot of things you can do with Project Gutenberg™ electronic works if you follow the terms of this agreement and help preserve free future access to Project Gutenberg™ electronic works. See paragraph 1.E below.

1.C. The Project Gutenberg Literary Archive Foundation (“the Foundation” or PGLAF), owns a compilation copyright in the collection of Project Gutenberg™ electronic works. Nearly all the individual works in the collection are in the public domain in the United States. If an individual work is unprotected by copyright law in the United States and you are located in the United States, we do not claim a right to prevent you from copying, distributing, performing, displaying or creating derivative works based on the work as long as all references to Project Gutenberg are removed. Of course, we hope that you will support the Project Gutenberg™ mission of promoting free access to electronic works by freely sharing Project Gutenberg™ works in compliance with the terms of this agreement for keeping the Project Gutenberg™ name associated with the work. You can easily comply with the terms of this agreement by keeping this work in the same format with its attached full Project Gutenberg™ License when you share it without charge with others.

1.D. The copyright laws of the place where you are located also govern what you can do with this work. Copyright laws in most countries are in a constant state of change. If you are outside the United States, check the laws of your country in addition to the terms of this agreement before downloading, copying, displaying, performing, distributing or creating derivative works based on this work or any other Project Gutenberg™ work. The Foundation makes no representations concerning the copyright status of any work in any country other than the United States.

1.E. Unless you have removed all references to Project Gutenberg:

1.E.1. The following sentence, with active links to, or other immediate access to, the full Project Gutenberg™ License must appear prominently whenever any copy of a Project Gutenberg™ work (any work on which the phrase “Project Gutenberg” appears, or with which the phrase “Project Gutenberg” is associated) is accessed, displayed, performed, viewed, copied or distributed:

This eBook is for the use of anyone anywhere in the United States and most other parts of the world at no cost and with almost no restrictions whatsoever. You may copy it, give it away or re-use it under the terms of the Project Gutenberg License included with this eBook or online at www.gutenberg.org. If you are not located in the United States, you will have to check the laws of the country where you are located before using this eBook.

1.E.2. If an individual Project Gutenberg™ electronic work is derived from texts not protected by U.S. copyright law (does not contain a notice indicating that it is posted with permission of the copyright holder), the work can be copied and distributed to anyone in the United States without paying any fees or charges. If you are redistributing or providing access to a work with the phrase “Project Gutenberg” associated with or appearing on the work, you must comply either with the requirements of paragraphs 1.E.1 through 1.E.7 or obtain permission for the use of the work and the Project Gutenberg™ trademark as set forth in paragraphs 1.E.8 or 1.E.9.

1.E.3. If an individual Project Gutenberg™ electronic work is posted with the permission of the copyright holder, your use and distribution must comply with both paragraphs 1.E.1 through 1.E.7 and any additional terms imposed by the copyright holder. Additional terms will be linked to the Project Gutenberg™ License for all works posted with the permission of the copyright holder found at the beginning of this work.

1.E.4. Do not unlink or detach or remove the full Project Gutenberg™ License terms from this work, or any files containing a part of this work or any other work associated with Project Gutenberg™.

1.E.5. Do not copy, display, perform, distribute or redistribute this electronic work, or any part of this electronic work, without prominently displaying the sentence set forth in paragraph 1.E.1 with active links or immediate access to the full terms of the Project Gutenberg™ License.

1.E.6. You may convert to and distribute this work in any binary, compressed, marked up, nonproprietary or proprietary form, including any word processing or hypertext form. However, if you provide access to or distribute copies of a Project Gutenberg™ work in a format other than “Plain Vanilla ASCII” or other format used in the official version posted on the official Project Gutenberg™ website (www.gutenberg.org), you must, at no additional cost, fee or expense to the user, provide a copy, a means of exporting a copy, or a means of obtaining a copy upon request, of the work in its original “Plain Vanilla ASCII” or other form. Any alternate format must include the full Project Gutenberg™ License as specified in paragraph 1.E.1.

1.E.7. Do not charge a fee for access to, viewing, displaying, performing, copying or distributing any Project Gutenberg™ works unless you comply with paragraph 1.E.8 or 1.E.9.

1.E.8. You may charge a reasonable fee for copies of or providing access to or distributing Project Gutenberg™ electronic works provided that:

- You pay a royalty fee of 20% of the gross profits you derive from the use of Project Gutenberg™ works calculated using the method you already use to calculate your applicable taxes. The fee is owed to the owner of the Project Gutenberg™ trademark, but he has agreed to donate royalties under this paragraph to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation. Royalty payments must be paid within 60 days following each date on which you prepare (or are legally required to prepare) your periodic tax returns. Royalty payments should be clearly marked as such and sent to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation at the address specified in Section 4, “Information about donations to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation.”
- You provide a full refund of any money paid by a user who notifies you in writing (or by e-mail) within 30 days of receipt that s/he does not agree to the terms of the full Project Gutenberg™ License. You must require such a user to return or destroy all copies of the works possessed in a physical medium and discontinue all use of and all access to other copies of Project Gutenberg™ works.
- You provide, in accordance with paragraph 1.F.3, a full refund of any money paid for a work or a replacement copy, if a defect in the electronic work is discovered and reported to you within 90 days of receipt of the work.
- You comply with all other terms of this agreement for free distribution of Project Gutenberg™ works.

1.E.9. If you wish to charge a fee or distribute a Project Gutenberg™ electronic work or group of works on different terms than are set forth in this agreement, you must obtain permission in writing from the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, the manager of the Project Gutenberg™ trademark. Contact the Foundation as set forth in Section 3 below.

1.F.

1.F.1. Project Gutenberg volunteers and employees expend considerable effort to identify, do copyright research on, transcribe and proofread works not protected by U.S. copyright law in creating the Project Gutenberg™ collection. Despite these efforts, Project Gutenberg™ electronic works, and the medium on which they may be stored, may contain “Defects,” such as, but not limited to, incomplete, inaccurate or corrupt data, transcription errors, a copyright or other intellectual property infringement, a defective or damaged disk or other medium, a computer virus, or computer codes that damage or cannot be read by your equipment.

1.F.2. LIMITED WARRANTY, DISCLAIMER OF DAMAGES - Except for the “Right of Replacement or Refund” described in paragraph 1.F.3, the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, the owner of the Project Gutenberg™ trademark, and any other party distributing a Project Gutenberg™ electronic work under this agreement, disclaim all liability to you for damages, costs and expenses, including legal fees. YOU AGREE THAT YOU HAVE NO REMEDIES FOR NEGLIGENCE, STRICT LIABILITY, BREACH OF WARRANTY OR BREACH OF CONTRACT EXCEPT THOSE PROVIDED IN PARAGRAPH 1.F.3. YOU AGREE THAT THE FOUNDATION, THE TRADEMARK OWNER, AND ANY DISTRIBUTOR UNDER THIS AGREEMENT WILL NOT BE LIABLE TO YOU FOR ACTUAL, DIRECT, INDIRECT, CONSEQUENTIAL, PUNITIVE OR INCIDENTAL DAMAGES EVEN IF YOU GIVE NOTICE OF THE POSSIBILITY OF SUCH DAMAGE.

1.F.3. LIMITED RIGHT OF REPLACEMENT OR REFUND - If you discover a defect in this electronic work within 90 days of receiving it, you can receive a refund of the money (if any) you paid for it by sending a written explanation to the person you received the work from. If you received the work on a physical medium, you must return the medium with your written explanation. The person or entity that provided you with the defective work may elect to provide a replacement copy in lieu of a refund. If you received the work electronically, the person or entity providing it to you may choose to give you a second opportunity to receive the work electronically in lieu of a refund. If the second copy is also defective, you may demand a refund in writing without further opportunities to fix the problem.

1.F.4. Except for the limited right of replacement or refund set forth in paragraph 1.F.3, this work is provided to you 'AS-IS', WITH NO OTHER WARRANTIES OF ANY KIND, EXPRESS OR IMPLIED, INCLUDING BUT NOT LIMITED TO WARRANTIES OF MERCHANTABILITY OR FITNESS FOR ANY PURPOSE.

1.F.5. Some states do not allow disclaimers of certain implied warranties or the exclusion or limitation of certain types of damages. If any disclaimer or limitation set forth in this agreement violates the law of the state applicable to this agreement, the agreement shall be interpreted to make the maximum disclaimer or limitation permitted by the applicable state law. The invalidity or unenforceability of any provision of this agreement shall not void the remaining provisions.

1.F.6. INDEMNITY - You agree to indemnify and hold the Foundation, the trademark owner, any agent or employee of the Foundation, anyone providing copies of Project Gutenberg™ electronic works in accordance with this agreement, and any volunteers associated with the production, promotion and distribution of Project Gutenberg™ electronic works, harmless from all liability, costs and expenses, including legal fees, that arise directly or indirectly from any of the following which you do or cause to occur: (a) distribution of this or any Project Gutenberg™ work, (b) alteration, modification, or additions or deletions to any Project Gutenberg™ work, and (c) any Defect you cause.

Section 2. Information about the Mission of Project Gutenberg™

Project Gutenberg™ is synonymous with the free distribution of electronic works in formats readable by the widest variety of computers including obsolete, old, middle-aged and new computers. It exists because of the efforts of hundreds of volunteers and donations from people in all walks of life.

Volunteers and financial support to provide volunteers with the assistance they need are critical to reaching Project Gutenberg™'s goals and ensuring that the Project Gutenberg™ collection will remain freely available for generations to come. In 2001, the Project Gutenberg Literary Archive Foundation was created to provide a secure and permanent future for Project Gutenberg™ and future generations. To learn more about the Project Gutenberg Literary Archive Foundation and how your efforts and donations can help, see Sections 3 and 4 and the Foundation information page at www.gutenberg.org.

Section 3. Information about the Project Gutenberg Literary Archive Foundation

The Project Gutenberg Literary Archive Foundation is a non-profit 501(c)(3) educational corporation organized under the laws of the state of Mississippi and granted tax exempt status by the Internal Revenue Service. The Foundation's EIN or federal tax identification number is 64-6221541. Contributions to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation are tax deductible to the full extent permitted by U.S. federal laws and your state's laws.

The Foundation's business office is located at 809 North 1500 West, Salt Lake City, UT 84116, (801) 596-1887. Email contact links and up to date contact information can be found at the Foundation's website and official page at www.gutenberg.org/contact

Section 4. Information about Donations to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation

Project Gutenberg™ depends upon and cannot survive without widespread public support and donations to carry out its mission of increasing the number of public domain and licensed works that can be freely distributed in machine-readable form accessible by the widest array of equipment including outdated equipment. Many small donations (\$1 to \$5,000) are particularly important to maintaining tax exempt status with the IRS.

The Foundation is committed to complying with the laws regulating charities and charitable donations in all 50 states of the United States. Compliance requirements are not uniform and it takes a considerable effort, much paperwork and many fees to meet and keep up with these requirements. We do not solicit donations in locations where we have not received written confirmation of compliance. To SEND DONATIONS or determine the status of compliance for any particular state visit www.gutenberg.org/donate.

While we cannot and do not solicit contributions from states where we have not met the solicitation requirements, we know of no prohibition against accepting unsolicited donations from donors in such states who approach us with offers to donate.

International donations are gratefully accepted, but we cannot make any statements concerning tax treatment of donations received from outside the United States. U.S. laws alone swamp our small staff.

Please check the Project Gutenberg web pages for current donation methods and addresses. Donations are accepted in a number of other ways including checks, online payments and credit card donations. To donate, please visit: www.gutenberg.org/donate

Section 5. General Information About Project Gutenberg™ electronic works

Professor Michael S. Hart was the originator of the Project Gutenberg™ concept of a library of electronic works that could be freely shared with anyone. For forty years, he produced and distributed Project Gutenberg™ eBooks with only a loose network of volunteer support.

Project Gutenberg™ eBooks are often created from several printed editions, all of which are confirmed as not protected by copyright in the U.S. unless a copyright notice is included. Thus, we do not necessarily keep eBooks in compliance with any particular paper edition.

Most people start at our website which has the main PG search facility: www.gutenberg.org.

This website includes information about Project Gutenberg™, including how to make donations to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, how to help produce our new eBooks, and how to subscribe to our email newsletter to hear about new eBooks.